# Cynigion i ddiweddaru'r cwotâu darlledu gwasanaeth cyhoeddus

## Gweithredu Deddf y Cyfryngau

FERSIWN HEB FOD YN GYFRINACHOL.

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 15 Mai 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 10 Gorffennaf 2025

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch i https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/public-service-broadcasting/consultation-proposals-to-update-the-psb-quotas

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ... 3
2. Cefndir ... 6
3. Ein dull gweithredu ar gyfer ein dadansoddiad ... 12
4. Cynyrchiadau gwreiddiol ... 16
5. Cynyrchiadau rhanbarthol ... 25
6. Cynyrchiadau annibynnol ... 31
7. Adrodd, monitro a chydymffurfio ... 33
8. Y camau nesaf ... 35


## Atodiad


A1. Y fframwaith cyfreithiol ... 36

A2. Perfformiad tuag at y cwotâu ... 43

A3. Asesu effaith ein cynigion ... 46

A4. Ymateb i’r ymgynghoriad hwn ... 52

A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom ... 55

A6. Dalen gyflwyno’r ymgynghoriad ... 56

# 1. Trosolwg

1.1 Mae rhwymedigaethau cwotâu cynyrchiadau yn cefnogi ac yn diogelu'r ddarpariaeth o gynnwys newydd ar gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Mae gan bob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol, rhanbarthol ac annibynnol. Maent yn rhan allweddol o gyflawni cylch gwaith y gwasanaeth cyhoeddus statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (gyda'i gilydd) ddiwallu anghenion a bodloni buddiannau cynifer o gynulleidfaoedd ag sy'n ymarferol.

1.2 Fodd bynnag, cafodd y fframwaith cwotâu a nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf') ei ddylunio ar gyfer oes teledu llinol, lle roedd cynnwys yn cael ei ddarlledu drwy amserlen rhaglenni, a dim ond rhaglenni a ddangoswyd ar y prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus oedd yn cyfrif tuag at rwymedigaethau perthnasol. O ganlyniad, nid yw gwahanol anghenion cynulleidfaoedd sy'n gwylio cynnwys a rhaglenni teledu ar-lein fwyfwy wedi cael eu hystyried o ran y ffordd y mae cwotâu'n cael eu bodloni.

1.3 Mae Deddf y Cyfryngau 2024 ('Deddf y Cyfryngau') yn diweddaru'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a nodir yn y Ddeddf. Mae'n cynnig mwy o hyblygrwydd i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: y BBC[1]; ITV ac STV - darparwyr pob gwasanaeth Sianel 3[2] ('trwyddedeion Sianel 3'); Corfforaeth Channel 4 ('Channel 4'); Channel 5 Broadcasting Limited ('Channel 5'), ac S4C[3] o ran ble a sut maen nhw'n cyflawni eu cylchoedd gwaith a'u gofynion.

1.4 Nod y newidiadau yn Neddf y Cyfryngau yw helpu i sicrhau bod pob cynulleidfa yn cael eu gwasanaethu'n dda, lle bynnag maen nhw'n dewis gwylio cynnwys. Un o'r effeithiau yw y gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddefnyddio eu gwasanaethau ar-alw am y tro cyntaf i gyflawni eu rhwymedigaethau. Er mwyn gwneud hynny, rhaid i'r gwasanaethau hynny fod yn wasanaeth rhaglenni rhyngrwyd dynodedig ('IPS dynodedig'), neu fod yn rhan o hynny[4].

1.5 Mae'r ymgynghoriad hwn, sy'n ystyried newidiadau sy'n ymwneud â'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer cwotâu cynhyrchu annibynnol, gwreiddiol a rhanbarthol a gyflwynwyd yn ddiweddar mewn is-ddeddfwriaeth,[5] yn nodi ein cynigion ar gyfer:

- yr amodau priodol ar gyfer gosod cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, rhanbarthol ac annibynnol yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5, gan gynnwys y fethodoleg ar gyfer cyfrifo lefelau eu cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol a rhanbarthol;
- lefel cwota cynyrchiadau gwreiddiol S4C;

---

[1] Newidiadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y BBC yw'r rheini sy'n ymwneud â lefel ei gwota cynyrchiadau annibynnol, a'r Canllawiau Cynyrchiadau Gwreiddiol arfaethedig a fydd yn berthnasol i'r BBC at ddibenion ei gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu diweddaru'r Cytundeb Fframwaith maes o law.

[2] Mae'r rhain i'w gweld yn nhroednodyn 17.

[3] Mae'r newidiadau i gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol a chwotâu cynyrchiadau annibynnol yn berthnasol i S4C.

[4] Mae "IPS dynodedig" neu "Gwasanaeth Rhaglenni Rhyngrwyd dynodedig", yn ap teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi cael ei "ddynodi" gan Ofcom at ddibenion y Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau). Rydym wedi ymgynghori ar wahân ar weithredu'r rhan hon o Ddeddf y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar ddynodi Gwasanaethau Rhaglenni Rhyngrwyd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus

[5] Gweler Rheoliadau Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) drafft 2025 a Rheoliadau Darlledu (Gwneud Rhaglenni Rhanbarthol) a Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) (Diwygio) drafft 2025 ("Rheoliadau Cynyrchiadau Gwreiddiol a Chynyrchiadau Rhanbarthol drafft 2025").

- ein canllawiau ar ba raglenni sy'n gallu cyfrif tuag at gyflawni'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol yma.
- newidiadau i'n canllawiau ar gynyrchiadau rhanbarthol yma.

1.6 Rydym yn croesawu ymatebion rhanddeiliaid i'n cynigion erbyn 10 Gorffennaf 2025. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein penderfyniadau mewn datganiad ac amrywio'r amodau perthnasol yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5 yn ddiweddarach yn 2025. Rydym yn disgwyl i'r amodau newydd hyn ddod i rym o 1 Ionawr 2026 ymlaen.[6]

### Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Rydym yn cynnig newidiadau i rwymedigaethau cwota yn dilyn newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf y Cyfryngau.

**Trosi cyfrannau yn oriau a gwariant**

Ar hyn o bryd, pennir cwotâu fel cyfran o allbwn sianel linol. Mae angen i ni drosi'r rhain yn rhifau absoliwt i sicrhau bod y cwotâu'n glir ac yn hawdd eu defnyddio ar draws gwasanaethau llinol a gwasanaethau ar-lein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Rydym yn cynnig gosod lefelau cwota sydd, ar y cyfan, yn cynnal y gofynion cyfredol. I wneud hyn, rydym yn bwriadu defnyddio cyfartaledd y pum mlynedd diwethaf o gyfanswm oriau a gwariant cymwys pob darlledwr,[7] a'i luosi â'r lefel cwota cyfrannol gyfredol.

**Cynyrchiadau gwreiddiol**

Mae cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gofalu bod cynnwys ar gael sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon cymunedau gwahanol, traddodiadau a diddordebau diwylliannol yn y DU. Rydym wedi ystyried a allai ailddarllediadau gyfrif ar sianel linol ac IPS dynodedig, ac os felly sut.

Rydym yn cynnig y dylai darlledwyr gadw'r gallu i gyfrif ailddarllediadau ar eu prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus llinol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cydbwysedd priodol o gynnwys gwreiddiol a chynnwys a brynir ar amserlenni llinol, gan gynnal yr hyblygrwydd sydd gan ddarlledwyr o ran sut maent yn dewis bodloni'r cwota. Rydym ni hefyd yn cynnig mai dim ond unwaith, drwy ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, y gall cynnwys sy'n cael ei ddarparu am y tro cyntaf ar wasanaethau ar-alw gyfrif tuag at y cwota cynyrchiadau gwreiddiol, ac na all cynnwys sydd ar gael ar-lein sydd wedi cael ei ddarlledu'n llinol yn flaenorol gyfrif.

Ar wahân, rydym yn cynnig cadw'r gofyniad oriau gwylio brig ar gyfer cynnwys ar y brif sianel linol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn sicrhau bod rhaglenni gwreiddiol yn parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd llinol yn ystod oriau brig, sef y cyfnod mwyaf poblogaidd o hyd i wylio cynnwys yn fyw.

Rydym hefyd wedi nodi ein Canllawiau drafft ar Gynyrchiadau Gwreiddiol yma. Mae hyn yn egluro'r mathau o raglenni rydym yn cynnig eu bod yn gallu cyfrif ac nad ydynt yn gallu cyfrif yn erbyn y gofynion.

[6] Mae hyn yn dibynnu ar roi'r darpariaethau perthnasol ar waith yn llawn yn Neddf y Cyfryngau.
[7] Mae oriau a gwariant 'cymwys' yn cyfeirio at gyfanswm yr allbwn a'r buddsoddiad a ystyrir tuag at gwota. Mae hyn yn cyfateb i'r cyfrifiadau sylfaen cwota o dan y system gyfrannol bresennol.

**Cynyrchiadau rhanbarthol**

Mae cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol yn helpu i sicrhau bod cynnwys yn cael ei gomisiynu sy'n cynrychioli ac yn portreadu cynulleidfaoedd ar draws y DU, ac sydd hefyd yn cefnogi'r economi greadigol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU hefyd.

Rydym yn cynnig codi'r cwota gwariant 2% bob blwyddyn i gyfrif am gynnydd tebygol mewn costau cynhyrchu dros amser. Rydym wedi nodi Canllawiau drafft ar Gynyrchiadau Rhanbarthol yma ac rydym wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf y Cyfryngau.

**Cynyrchiadau annibynnol**

Mae'r cwotâu cynyrchiadau annibynnol yn ceisio sicrhau bod cynulleidfaoedd yn elwa o raglenni gan amrywiaeth o gynhyrchwyr annibynnol ac nid dim ond gan adnoddau cynhyrchu mewnol y darlledwyr eu hunain neu gwmnïau cynhyrchu sy'n eiddo i ddarlledwyr.

Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n pennu'r nifer sylfaenol o raglenni y mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi lefelau cwota diwygiedig ar gyfer cwotâu cynyrchiadau annibynnol yn Rheoliadau Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 2025 drafft SI. Mae'n rhaid i ni gynnwys amodau yn nhrwyddedau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau bod o leiaf gymaint â hyn o raglenni yn cael eu cynnwys yng ngwasanaethau trwyddedeion. Rydym yn cynnig adlewyrchu'r nifer drafft a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4, a 5.

**Adrodd a chydymffurfio**

Byddwn yn parhau i fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cwota. Rydym yn nodi'n fanwl iawn y dull y bwriadwn ei gymryd i gasglu data gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys data o wasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Rydym wedi amlinellu ein rhesymeg yn y ddogfen lawn.

# 2. Cefndir

## Cyd-destun

2.1 Un o swyddogaethau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yw darparu amrywiaeth eang o raglenni i gynulleidfaoedd sy’n portreadu bywyd yn y DU mewn modd dilys a newydd, gan helpu i ddod â phobl at ei gilydd, adlewyrchu’r amgylcheddau amrywiol y maent yn byw ynddynt, a gwneud cyfraniad hanfodol i economi greadigol y DU. Mae'r cwotâu sy'n cael eu gosod ar bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gan y drefn statudol, yn helpu i sicrhau buddsoddiad parhaus mewn cynyrchiadau gwreiddiol, rhanbarthol ac annibynnol; elfen ganolog o system gwasanaeth cyhoeddus wedi'i llunio i ddiwallu anghenion a bodloni buddiannau cynifer o gynulleidfaoedd ag sy’n ymarferol bosibl.

2.2 Mae’r degawd diwethaf wedi cael ei nodi gan newid yn y gynulleidfa tuag at wasanaethau ar-alw. Bu gostyngiad o 21% mewn lefelau gwylio cynnwys sy’n cael ei ddarlledu ar setiau teledu ers 2019, ac erbyn hyn mae gwylio ar deledu llinol ond yn cyfrif am hanner yr holl gynnwys sy'n cael ei wylio yn y cartref.[8] I’r gwrthwyneb, roedd gwylio gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr (‘BVoD’) fel ITVX a STV Player wedi cynyddu 29% rhwng 2022 a 2023 yn unig.[9]

2.3 Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi ymateb i’r newidiadau hyn drwy wario'n helaeth ar eu gwasanaethau digidol. Mae hyn wedi golygu buddsoddi mewn seilwaith digidol, mireinio profiadau defnyddwyr, a thyfu eu catalogau rhaglenni. Fodd bynnag, dros amser bydd mwy a mwy o angen i’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i addasu, a chyflawni eu rhwymedigaethau mewn ffordd sy’n gwasanaethu'r newidiadau mewn buddiannau cynulleidfaoedd.

2.4 Mae Deddf y Cyfryngau yn diweddaru'r fframwaith rheoleiddio sy'n ymwneud â’r cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae wedi'i llunio i roi mwy o hyblygrwydd nag erioed i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran sut maent yn cyflawni eu rhwymedigaethau. Yn benodol, gall y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig[10] ac S4C, am y tro cyntaf, ddefnyddio gwasanaethau rhaglenni ar-alw (‘ODPS’), sef eu gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd dynodedig, neu sy'n rhan ohonynt, tuag at gyflawni eu cwotâu, ar ben eu prif sianeli llinol.

2.5 Mae’r newid hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddiwygio’r ffordd rydym yn pennu gofynion cwota mewn trwyddedau. Er bod cwotâu blaenorol wedi cael eu mynegi fel cyfran o gyfanswm yr allbwn perthnasol ar wasanaeth teledu llinol, mae’n rhaid i ni nawr osod cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol a rhanbarthol mewn termau absoliwt, hynny yw, nifer yr oriau sy’n briodol yn ein barn ni. Yn achos cwotâu rhanbarthol, mae hyn hefyd yn golygu gosod cwota gwariant sylfaenol fel cwota gwariant sylfaenol. Gan nad yw llyfrgelloedd cynnwys ar-alw yn gweithredu yn yr un ffordd â gwasanaethau teledu ac yn caniatáu mynediad at ystod lawer ehangach o raglenni catalog, mae’n rhaid i ni hefyd bennu o dan ba amgylchiadau y gall ailddarllediadau gyfrif tuag at gyflawni’r cwotâu cynyrchiadau

[8] Barb.

[9] Barb fel y’i gwyliwyd.

[10] Mae "darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig" yn cyfeirio at ddeiliad trwyddedau Sianeli 3, 4 a 5.

gwreiddiol a rhanbarthol.[11] Mae’r fframwaith mewn perthynas â’r cwotâu hyn (a’r cwota cynyrchiadau annibynnol) wedi’i nodi isod.

2.6 Yn ddiweddar, fe wnaethom gynnal prosesau aildrwyddedu ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig, gan adnewyddu eu trwyddedau am gyfnod o ddeng mlynedd arall, tan 2034. Fel rhan o hyn, fe wnaethom adolygu perfformiad trwyddedeion tuag at gwotâu dros gyfnod y drwydded flaenorol, ac ar gyfer trwydded Channel 4 fe wnaethom osod lefelau cwota diwygiedig.[12] Mae hyn yn golygu y bydd angen i unrhyw newidiadau a wnawn i ofynion y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ddod i rym gan ddefnyddio’r broses amrywio trwyddedau, ochr yn ochr â phenderfyniadau ar gyfer S4C.[13] Gan fod yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi diweddaru cwota cynyrchiadau annibynnol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig,[14] bydd angen i ni hefyd gynnwys y gofyniad sydd wedi'i ddiweddaru ar gynyrchiadau annibynnol yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4, a 5. Yn olaf, mae’n rhaid i ni hefyd gyhoeddi Canllawiau Cynyrchiadau Gwreiddiol, a diweddaru ein Canllawiau Cynyrchiadau Rhanbarthol i adlewyrchu’r newidiadau hyn.[15]

# Fframwaith statudol cwotâu

## Fframwaith rheoleiddio'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

2.7 Mae gan Ofcom ddyletswyddau cyffredinol o ran cyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys gosod gofynion cwota gwreiddiol a rhanbarthol yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5, a lle y bo'n berthnasol ar gyfer S4C, i hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy’n ymwneud â chyfathrebu a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth.[16] Rhaid i Ofcom ystyried hefyd nifer o faterion wrth gyflawni ei ddyletswyddau, gan gynnwys pa mor ddymunol yw hyrwyddo’r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Mae cefndir ychwanegol am y fframwaith cyfreithiol ar gael isod ac yn llawn yn Atodiad 1.

2.8 Mae’r fframwaith rheoleiddio ar gyfer cwotâu’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn amrywio, yn dibynnu ar ba ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a pha gwotâu sy’n cael eu hystyried, gweler Ffigur 1.

[11] Gweler Rheoliadau Cynyrchiadau Rhanbarthol a Gwreiddiol drafft 2025.
[12] Ofcom, 2024. Aildrwyddedu trwyddedau Sianel 3 a Channel 5 ac adnewyddu trwydded Channel 4.
[13] Gweler adrannau 278, 286, 288 ac Atodlen 12, Rhan 2, paragraff 8 o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau).
[14] Gweler Rheoliadau Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) drafft 2025.
[15] Gweler Rheoliadau Cynyrchiadau Rhanbarthol a Gwreiddiol drafft 2025.
[16] Adran 3(2) o’r Ddeddf.

**Ffigur 1: Ffynhonnell ar gyfer cwotâu pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus**

| Darlledwr gwasanaeth cyhoeddus | Ffynhonnell pob cwota | | |
|---|---|---|---|
| | Cynyrchiadau Gwreiddiol | Cynyrchiadau Rhanbarthol | Cynyrchiadau Annibynnol |
| **Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig: Sianeli 3,[17] 4 a 5** | Gofyniad statudol i Ofcom osod cwotâu drwy amodau yn y trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus | Gofyniad statudol i Ofcom osod cwotâu drwy amodau yn y trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus | Yr isafswm a bennwyd gan y Llywodraeth mewn Offeryn Statudol, gofyniad statudol i Ofcom gynnwys amodau yn y trwyddedau ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus |
| **S4C** | Wedi'i bennu gan Ofcom, drwy gytundeb ag S4C, ac os na fydd cytundeb, drwy gyfarwyddyd gan Ofcom | Ddim yn berthnasol | Yr isafswm a bennwyd gan y Llywodraeth mewn Offeryn Statudol |
| **BBC** | Wedi'i osod gan Ofcom o dan Gytundeb Fframwaith y BBC rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol, sydd wedi'i gynnwys yn Nhrwydded Weithredu'r BBC[18] | Wedi'i osod gan Ofcom o dan Gytundeb Fframwaith y BBC rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol, sydd wedi'i gynnwys yn Nhrwydded Weithredu'r BBC[19] | Yr isafswm a bennwyd gan y Llywodraeth mewn Offeryn Statudol ac yng Nghytundeb Fframwaith y BBC rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol |

## Cynyrchiadau gwreiddiol

2.9 Mae cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol wedi'u llunio i sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gofalu bod cynnwys ar gael sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon cymunedau gwahanol, traddodiadau a diddordebau diwylliannol yn y DU.

2.10 Mae'n rhaid i Ofcom bennu'r nifer sylfaenol o raglenni gwreiddiol y mae'n ystyried sy'n briodol i'w cynnwys yng ngwasanaethau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac

[17] Mewn perthynas â thrwyddedeion Sianel 3, mae 15 o drwyddedau Sianel 3 rhanbarthol ac un drwydded brecwast ledled y DU. Mae'r trwyddedau ym meddiant is-gwmnïau ITV plc ('ITV)' ac STV plc ('STV'). Mae STV yn darparu gwasanaeth Sianel 3 yng nghanolbarth a gogledd yr Alban tra bod ITV yn darparu gwasanaethau Sianel 3 yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, de'r Alban, ac Ynysoedd y Sianel, ochr yn ochr â'r gwasanaeth brecwast ledled y DU, GMTV. Mae'n rhaid i bob trwyddedai Sianel 3 cenedlaethol a rhanbarthol gyflawni'r cwotâu a nodir yn ei drwydded.
[18] Nid yw Deddf y Cyfryngau wedi newid y cwotâu hyn.
[19] Nid yw Deddf y Cyfryngau wedi newid y cwotâu hyn.

S4C.[20] Rhaid i Ofcom benderfynu ymhellach a ddylai rhaglenni ar gyfnodau brig ym mhob un o'r gwasanaethau hyn fod yn gynyrchiadau gwreiddiol, ac os felly o leiaf faint ohonynt,[21] a phenderfynu a all ailddarllediadau gyfrif tuag at gyflawni'r cwota.[22] Mae'r gofynion presennol wedi cael eu pennu gan Ofcom yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5, ac mewn cytundeb gydag S4C.[23]

2.11 Ar hyn o bryd, mae cynyrchiadau gwreiddiol yn rhaglenni sy'n cael eu comisiynu gan, neu ar gyfer, sianel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gyda'r bwriad o'u dangos am y tro cyntaf yn y DU ar deledu ar y sianel honno.[24] Ar ôl gweithredu Deddf y Cyfryngau, o 1 Ionawr 2026 bydd cynyrchiadau gwreiddiol yn rhaglenni sy'n cael eu comisiynu gan, neu ar gyfer, darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gyda'r bwriad o'u darparu am y tro cyntaf yn y DU ar wasanaeth sy'n "wasanaeth clyweledol cymwys" (hynny yw, prif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus neu wasanaeth rhaglenni ar-alw, sef eu gwasanaeth rhaglenni rhyngrwyd (IPS) dynodedig, neu sy'n rhan o hynny).[25] Ar hyn o bryd, pennir y cwota cynyrchiadau gwreiddiol fel canran o'r oriau cymwys.[26]

## Cynyrchiadau rhanbarthol

2.12 Mae cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol yn sicrhau bod swm addas o raglenni ar wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu gwneud y tu allan i ardal yr M25. Mae'r cwotâu hyn yn helpu i sicrhau bod cynnwys yn cael ei gomisiynu sy'n cynrychioli ac yn portreadu cynulleidfaoedd ar draws y DU, ac sy'n cefnogi'r economi greadigol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU hefyd.

2.13 Rhaid i Ofcom osod y nifer sylfaenol o gynyrchiadau rhanbarthol (hynny yw, cynyrchiadau sy'n cael eu gwneud yn y DU, ond y tu allan i'r M25) y mae'n rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig eu gwneud i'w cynnwys yn eu gwasanaethau.[27] Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r cwota hwn fod yn gyfran sylfaenol o gyfanswm yr amser a dreuliwyd ar y cynyrchiadau hynny, a'r swm a dreuliwyd arnynt. Mae'r gofynion hyn wedi cael eu cynnwys gan Ofcom yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5.[28]

2.14 Mae gan Channel 4 hefyd gwota ar wahân ar gyfer rhaglenni a wneir y tu allan i Loegr, sy'n gofyn am gynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.[29] Mae cwotâu

---

[20] Adran 278(1) ac Atodlen 12, Rhan 2, paragraff 8 o'r Ddeddf.
[21] Adran 278(2) o'r Ddeddf (adran 278(1A) fel y'i diwygiwyd) ac Atodlen 12, Rhan 2, paragraff 8 o'r Ddeddf.
[22] Rheoliad 3A(1) o Orchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynyrchiadau Gwreiddiol a Chynyrchiadau Rhanbarthol 2025.
[23] Gweler trwyddedau darlledu.
[24] Fel y'i diffinnir ar hyn o bryd gan Orchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004 SI 2004/1652. Mae hefyd yn ofynnol iddynt fod yn "rhaglenni Ewropeaidd".
[25] Gweler diwygiadau i Orchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004 a wnaed gan Reoliadau Cynyrchiadau Gwreiddiol a Chynyrchiadau Rhanbarthol 2025, rheoliad 3.
[26] Adran 278 o'r Ddeddf. Dyma'r cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol presennol ar gyfer oriau yn y trwyddedau: Sianel 3, 65% ar gyfer y 15 o drwyddedau cenedlaethol a rhanbarthol, ac 80% ar gyfer y drwydded amser brecwast; Channel 4, 45%; Channel 5, 50% ac S4C, 80%. Ar gyfer oriau brig, dyma'r cwotâu presennol: Sianel 3, 65% ar gyfer y 15 o drwyddedau cenedlaethol a rhanbarthol, nid oes cwota ar gyfer y drwydded amser brecwast; Channel 4, 70%; Channel 5, 45%, ac S4C, 90%.
[27] Adrannau 286 a 288 o'r Ddeddf.
[28] Ar hyn o bryd, mae'r cwota yn 35% ar gyfer gwariant ac oriau yn nhrwyddedau cenedlaethol a rhanbarthol Sianel 3 (does dim cwota ar gyfer y drwydded amser brecwast) a thrwydded Channel 4, ac yn 10% ar gyfer pob un yn nhrwydded Channel 5.
[29] Ar hyn o bryd, mae'r cwota ar gyfer Channel 4 yn 9% o'r oriau a'r gwariant i'w neilltuo i gynyrchiadau sy'n cael eu gwneud y tu allan i Loegr. Bydd hyn yn cynyddu i 12% o 2030 ymlaen.

cynyrchiadau rhanbarthol y BBC wedi'u nodi yn y Cytundeb Fframwaith a'r Drwydded Weithredu. Nid yw Deddf y Cyfryngau yn newid y rhain.

2.15 Rhaid i ni fynnu bod "swm addas" o wariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ar raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU yn cael ei wneud mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.[30] Nid yw Ofcom i ystyried bod swm o wariant yn "addas" os yw'n "llai na swm sylweddol o'r gwariant dan sylw".[31] Rhaid i ni hefyd sicrhau bod y gwahanol ganolfannau cynhyrchu rhaglenni y mae'r gwariant hwnnw'n cyfeirio atynt, yn cyfateb i'r hyn sy'n ymddangos i ni fel ystod addas o ganolfannau cynhyrchu.[32]

2.16 Mae gan y BBC a thrwyddedeion Sianel 3 gwotâu "rhaglenni rhanbarthol" penodol ychwanegol hefyd, sy'n mynnu bod rhaglenni'n gwasanaethu ac o ddiddordeb i gynulleidfaoedd sy'n byw yn yr ardal ddarlledu leol lai lle caiff y rhaglen ei darlledu (er enghraifft, rhaglenni lleol ar gyfer cynulleidfaoedd yn Swydd Efrog sy'n cael eu gwasanaethu gan drwydded ITV Yorkshire). Er bod rhaglenni rhanbarthol yn gallu cyfrif tuag at gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol ac annibynnol, nid yw cwotâu penodol ynghylch faint o raglenni rhanbarthol (hynny yw, rhaglenni lleol ar gyfer rhanbarth penodol ac am y rhanbarth hwnnw) wedi cael eu diwygio gan Ddeddf y Cyfryngau ac ni fydd y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio arnynt.

## Cynyrchiadau annibynnol

2.17 Mae'r cwotâu cynyrchiadau annibynnol yn ceisio sicrhau bod cynulleidfaoedd yn elwa o raglenni gan amrywiaeth o gynhyrchwyr annibynnol ac nid dim ond gan gwmnïau cynhyrchu mewnol y darlledwyr eu hunain neu gwmnïau cynhyrchu sy'n eiddo i ddarlledwyr. Mae mynnu bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol, yn hytrach na dibynnu ar adnoddau cynhyrchu mewnol neu is-gwmnïau, yn hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol, yn ogystal hefyd â lleihau'r rhwystrau sy'n atal busnesau cynhyrchu newydd a darpar fusnesau cynhyrchu rhag bod yn rhan.

2.18 Ar hyn o bryd, mae'r cwotâu cynyrchiadau annibynnol yn cael eu pennu fel canran o gyfanswm amser y rhaglenni cymwys sy'n cael eu darlledu gan ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus, a dim ond rhaglenni a ddarlledir gan brif sianeli llinol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gallu diwallu hyn.[33]

2.19 Mae isafswm y cwota mewn oriau absoliwt wedi cael ei bennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn Rheoliadau Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 2025 SI drafft. Mae'n rhaid i ni gynnwys amodau yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5 sydd, yn ein barn ni, yn briodol i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni'r gofyniad hwn, ac yn adlewyrchu'r ffaith y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig yn gallu defnyddio eu IPS dynodedig i fodloni'r cwota hwn[34].

## Strwythur y ddogfen hon

2.20 Mae gweddill y ddogfen ymgynghori hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

---

[30] Adran 286(1), 286(3) a 288(1) o'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau.
[31] Adran 286(6) a 288(4) o'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau.
[32] Adran 286 a 288 o'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau.
[33] Mae'r cwota yn 25% o'r oriau cymwys ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig, y BBC ac S4C.
[34] Adran 277 o'r Ddeddf.

- Mae **Adran 3** yn nodi ein dull gweithredu ar gyfer ein dadansoddiad;
- Mae **Adran 4** yn egluro ein cynigion ar gyfer cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol;
- Mae **Adran 5** yn egluro ein cynigion ar gyfer cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol;
- Mae Adran 6 yn esbonio newidiadau i'r cwotâu cynyrchiadau annibynnol;
- Mae **Adran 7** yn nodi manylion ein dull gweithredu ar gyfer adrodd, monitro a chydymffurfio;
- Mae **Adran 8** yn nodi ein camau nesaf;
- Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o fanylion am y fframwaith cyfreithiol;
- Mae **Atodiad 2** yn nodi manylion perfformiad y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C tuag at gwotâu;
- Mae **Atodiad 3** yn nodi ein hasesiad o effaith ein cynigion; ac
- Mae **Atodiadau 4-6** yn darparu manylion ar sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

# 3. Ein dull gweithredu ar gyfer ein dadansoddiad

## Cyflwyniad

3.1 Fel y trafodwyd yn Adran 2, rydym wedi cwblhau'r gwaith o aildrwyddedu Sianeli 3, 4 a 5. Daeth y trwyddedau newydd i rym ar 1 Ionawr 2025, a byddant yn parhau am ddeng mlynedd, gan sicrhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar y sianeli hyn tan 31 Rhagfyr 2034.[35] Fodd bynnag, oherwydd y newidiadau a wnaed gan Ddeddf y Cyfryngau i'r ffordd y mae'n rhaid gosod lefelau cwota, bydd angen i ni ddiwygio'r amodau cwota perthnasol yn y trwyddedau newydd hyn.

3.2 Ein hamcan yn y broses ymgynghori hon yw trosi'r gofynion hynny yn fformat sy'n sicrhau bod y lefelau sylfaenol a nodir yn y gofynion cwota presennol yn cael eu cynnal yn gyffredinol, a hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C fodloni'r cwotâu hynny gan ddefnyddio eu gwasanaethau ar-alw. Nodwn hefyd mai isafswm yw lefelau cwota. Mae darlledwyr yn gallu perfformio'n well na'r rhain ac maent wedi bodloni neu wedi rhagori ar y cwotâu hyn yn gyson hyd yma.[36]

3.3 Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth o'n gwaith ymchwil a'n gwaith casglu data ein hunain. Mae hyn yn cynnwys yn bennaf y data oriau a gwariant a ddarparwyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel rhan o'n hasesiadau perfformiad blynyddol. Lle bo angen, rydym hefyd wedi defnyddio data gwylio cynulleidfaoedd a'n hymchwil ein hunain ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddeall eu harferion presennol ar gyfer tracio data ar draws eu gwasanaeth rhaglenni ar-alw.

## Trosi'r cwotâu yn rhifau absoliwt

### Rydym yn cynnig seilio cyfrifiadau cwota ar gyfanswm oriau a gwariant cymwys presennol darlledwyr

3.4 Hyd yma, mae cydymffurfiad y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus â'r cwota wedi cael ei asesu drwy gyfrifo cyfran y cyfanswm posibl o oriau neu wariant cymwys sy'n bodloni amodau'r cwota penodol hwnnw. Er enghraifft, yn 2023, roedd Channel 5 wedi darlledu 6,481 awr o gynnwys a oedd yn 'gymwys' ar gyfer ei gwota cynyrchiadau gwreiddiol. Yn achos y cwota hwn, roedd hyn yn cynnwys hysbysebion, deunydd hyrwyddo, a thelesiopa. O'r cyfanswm hwn, roedd 3,898 awr yn gynyrchiadau gwreiddiol, sy'n cyfateb i berfformiad o ran cynyrchiadau gwreiddiol o 60.1% (sy'n uwch na'r isafswm o 50% sy'n ofynnol o dan y cwota).

[35] Ofcom, 2024. Aildrwyddedu trwyddedau Sianel 3 a Channel 5 ac adnewyddu trwydded Channel 4. Ar gyfer trwydded Channel 4 fe wnaethom leihau'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol i 45%, a chynyddu'r cwota wedi'i wneud y tu allan i Loegr ar gyfer gwariant ac oriau i 12% o 2030 ymlaen.
[36] Gweler ein dadansoddiad o berfformiad yn ystod 2018-23 yn Atodiad 2.

3.5 Rydym wedi defnyddio’r data hanesyddol helaeth sydd gennym am berfformiad cwota’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar eu sianeli llinol i gyfrifo faint y byddai’n rhaid iddynt ei ddarparu mewn rhifau absoliwt ym mhob un o’r blynyddoedd diwethaf. Er mwyn parhau â’r enghraifft a ddisgrifir uchod, byddai wedi bod yn ofynnol i Channel 5 ddarparu 3,240 awr o raglenni gwreiddiol yn 2023 (hynny yw, 50% o’r 6,481 o oriau cymwys y mae’n eu darlledu) pe bai ei rhwymedigaeth wedi cael ei mynegi mewn nifer o oriau yn y flwyddyn honno.

3.6 Rydym yn cynnig lluosi cyfanswm yr oriau a gwariant cymwys gyda’r lefelau cwota cyfrannol presennol i drosi’r rhain yn niferoedd absoliwt o oriau a gwariant sy’n ofynnol gan Ddeddf y Cyfryngau.

3.7 Wrth wneud hynny, rydym yn cynnig peidio ag ystyried y rhaglenni gwreiddiol ar-lein yn unig y mae rhai o’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi’u darparu ar eu gwasanaethau ar-alw yn y gorffennol. Rydym yn deall mai bach iawn yw'r cynnwys gwreiddiol ar-lein yn unig yn y gorffennol.

## Rydym yn cynnig defnyddio cyfartaledd o bum mlynedd o ddata yn ein cyfrifiadau

3.8 Mae cwotâu cyfrannol sy'n adlewyrchu'r flwyddyn galendr ddiweddaraf yn addasu’n awtomatig ar gyfer unrhyw newidiadau mewn oriau a gwariant cymwys cyffredinol a allai ddigwydd. Er enghraifft, os bydd darlledwr yn cynyddu ei wariant yn sylweddol ar raglenni gwreiddiol cymwys mewn blwyddyn benodol, rhaid iddo barhau i gyfeirio’r un gyfran sylfaenol o’r gwariant hwnnw at gynnwys sy’n cael ei gynhyrchu y tu allan i Lundain. Mae hyn yn golygu y byddai’r lefel ofynnol o fuddsoddiad yn codi gyda’r cynnydd mewn gwariant cymwys cyffredinol.

3.9 Fodd bynnag, ni fydd lefelau cwota absoliwt yn addasu i amrywiadau mewn allbwn a gwariant cyffredinol yn yr un modd ag y mae cwotâu cyfrannol wedi’i wneud: byddant yn aros yn sefydlog. Ac ystyried ein bod yn cynnig defnyddio cyfrifiadau ar sail data hanesyddol, mae risg na fydd defnyddio un flwyddyn o ddata yn gynrychioladol. I liniaru'r risg hwnnw, rydym yn cynnig defnyddio cyfartaledd o oriau a gwariant cymwys dros nifer o flynyddoedd.

3.10 Wrth benderfynu ar nifer y blynyddoedd i ystyried ein cyfrifiad, rydym wedi ystyried newidiadau mewn tueddiadau comisiynu – er enghraifft, efallai y bydd blynyddoedd yn effeithio ar allbwn darlledwr a strategaeth gomisiynu sy’n cynnwys digwyddiadau mawr fel Cwpan y Byd FIFA neu’r Gemau Olympaidd. Rydym hefyd wedi ystyried bod angen amserlen digon hir i liniaru effaith pandemig COVID-19 ar gynhyrchu ac allbwn.

3.11 Rydym yn cynnig defnyddio’r pum mlynedd diwethaf o wybodaeth hanesyddol i bennu’r cwotâu absoliwt ar gyfer oriau a gwariant. Yn ein barn ni, mae hyn yn cynnig bod cydbwysedd rhesymol ar gyfer llyfnhau amrywiadau heb ddefnyddio data sy’n dyddio’n ôl yn rhy bell ac a allai fod yn llai cynrychioliadol o amodau diweddar y farchnad. Ar wahân i hynny, rydym yn nodi fod hyn yr un fath â'r dull y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu ei fod yn briodol i’w ddefnyddio i osod lefel y cwota cynyrchiadau annibynnol.

3.12 Wrth gyfrifo’r lefelau absoliwt, rydym yn cynnig defnyddio’r pum mlynedd mwyaf diweddar a mwyaf cyflawn o ddata sydd gennym, sef 2019-2023 ar hyn o bryd. Os bydd data terfynol ar gael ar gyfer 2024 cyn dechrau proses ffurfiol amrywio’r trwyddedau yn ddiweddarach y flwyddyn hon, rydym yn cynnig diweddaru ein cyfrifiadau i ddefnyddio amserlen 2020-24.

## Mae'r dull gweithredu a gynigiwn yn rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd rheoleiddiol

3.13 Rydym yn cynnig gosod y lefelau cwota fel eu bod yn berthnasol drwy gydol cyfnod y drwydded. Mae dau eithriad: rydym yn cynnig bod cwota Channel 4 y tu allan i Loegr yn cynyddu yn 2030 yn unol ag amod y drwydded bresennol; ac rydym wedi cynnig cynnydd blynyddol o 2% ar gyfer pob cwota gwariant rhanbarthol i gyfrif am y tebygolrwydd y bydd cynnydd mewn costau cynhyrchu dros amser. Dewiswyd gwerth y cynnydd hwn i fod yn gyson â tharged chwyddiant hirdymor Banc Lloegr.[37]

3.14 Byddai'r dull hwn a gynigir yn rhoi sicrwydd rheoleiddiol i randdeiliaid, gan roi lefelau clir a disgwyliadwy i ddarlledwyr seilio eu cynlluniau comisiynu a chynhyrchu tymor hir arnynt, gan roi'r hyblygrwydd iddynt gyflawni cwotâu ar yr un pryd gan ddefnyddio eu gwasanaethau ar-alw am y tro cyntaf.

3.15 Rydym yn cydnabod y gallai amodau'r farchnad newid, ac rydym yn bwriadu parhau i fonitro datblygiadau ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac amgylchiadau'r farchnad, er mwyn asesu a yw'r rhwymedigaethau'n dal yn briodol ac yn addas dros amser.

**Ein dull gweithredu gyda thrwyddedau rhanbarthol Sianel 3**

**Gofynion trwydded unigol**

- Mae pob trwyddedai ar gyfer rhanbarthau Sianel 3 (fel Anglia ITV) yn cyflawni eu rhwymedigaethau gan ddefnyddio set ychydig yn wahanol o raglenni. Mae hyn yn golygu bod ein dull o drosi i rifau absoliwt yn gallu arwain at lefel cwota ychydig yn wahanol ar gyfer pob trwydded, pe byddem yn defnyddio data darlledu pob trwyddedai unigol.
- Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym yn cynnig gosod pob un o'r cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol a rhanbarthol ar yr un lefel ar gyfer pob un o'r trwyddedau Sianel 3 rhanbarthol, oni nodir yn wahanol. Rydym o'r farn bod rhwymedigaethau cyfartal yn ystyriaeth bwysig ar gyfer y set hon o ddeiliaid trwydded, ac mae'r gwahaniaethau mewn lefel cwota a allai fod wedi bodoli fel arall oherwydd mân wahaniaethau yn allbwn pob trwyddedai yn gymharol fach.
- Ar gyfer y ddwy set hyn o gwotâu, mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, lle mae pob trwyddedai rhanbarthol yn ddarostyngedig i'r un gofynion cyfrannol. Mae'r broses hon o symleiddio hefyd yn cefnogi ymarferoldeb gweinyddu'r cwota.
- Yn achos y rheini sy'n dal trwyddedau ar gyfer gwasanaeth Dyddiau'r Wythnos Llundain a gwasanaeth Penwythnosau Llundain, rydym yn cynnig gosod gofynion absoliwt ar sail pro-rata i adlewyrchu agwedd amserol wahanol y trwyddedau hynny (hynny yw, bod gan wasanaeth Penwythnosau Llundain drwydded i ddarlledu ychydig dros ddau ddiwrnod yr wythnos - yn cynnwys dydd Gwener ar ôl 5.15pm a dydd Llun cyn 6am - ac mae gan wasanaeth Dyddiau'r Wythnos Llundain drwydded i ddarlledu ychydig o dan bum diwrnod yr wythnos).

**Trefniadau rhwydweithio**

- Mae gan drwyddedeion Sianel 3 drefniadau rhwydweithio ar waith sy'n llywodraethu'r ddarpariaeth o raglenni rhwydwaith gwreiddiol rhyngddynt.

[37] Chwyddiant a'r targed o 2% | Banc Lloegr. Gweler is-adran olaf Adran 5 am ragor o fanylion.

- Wrth fodloni'r gofynion cwota absoliwt ym mhob trwydded Sianel 3, gall cynnwys rhwydwaith sy'n cael ei gomisiynu neu ei gynhyrchu gan neu ar gyfer un trwyddedai Sianel 3 rhanbarthol gyfrif tuag at gyflawni cwota trwyddedai Sianel 3 arall (ar yr amod ei fod hefyd yn cael ei ddarparu gan y trwyddedai hwnnw ar eu gwasanaeth llinol rhanbarthol, neu drwy ei gynnwys yn eu IPS dynodedig).

# 4. Cynyrchiadau gwreiddiol

## Cyflwyniad

4.1 Mae'n ofynnol i Ofcom osod cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5, a thrwy gytundeb gydag S4C.[38] Bob blwyddyn, mae'r cwotâu hyn yn mynnu bod y darlledwyr yn darlledu lefel sylfaenol o raglenni gwreiddiol ar eu prif sianeli llinol. Ar hyn o bryd, rydym yn gosod y cwotâu hyn fel cyfran o gyfanswm yr amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer darlledu "rhaglenni cymwys" ar y sianel.[39] Rydym hefyd wedi gosod cwota ychwanegol ar gyfer darlledu cynyrchiadau gwreiddiol yn ystod oriau gwylio brig.[40]

4.2 Mae diffiniad o "gynhyrchiad gwreiddiol" yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn gorchymyn statudol.[41] Yn fras, o 1 Ionawr 2026, bydd cynhyrchiad gwreiddiol yn rhaglen sy'n cael ei chomisiynu gan, neu ar gyfer, y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'r bwriad iddi gael ei dangos am y tro cyntaf naill ai ar y brif sianel neu ar ei IPS dynodedig.

4.3 Gall ailddarllediadau rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar brif sianel linol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gyfrif tuag at gyflawni'r cwota. Yn draddodiadol, roedd rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu yn helpu i sicrhau cymysgedd amrywiol o raglenni ac yn sicrhau nad oedd cynulleidfaoedd yn colli rhaglenni ar yr amserlen a allai fod o ddiddordeb iddynt, ac nad oeddent, am ba reswm bynnag, yn gallu eu gwylio neu'n dewis peidio â'u gwylio. Fodd bynnag, nid oedd modd i raglenni a ymddangosodd i ddechrau ar un o sianeli eraill darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig neu rywle arall, gyfrif tuag at gyflawni'r cwota hwn.

4.4 Mae ein dadansoddiad, sydd wedi'i nodi'n fanwl yn Atodiad 2, yn dangos bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C wedi bodloni neu wedi rhagori ar eu cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol cyffredinol ac oriau brig yn gyson.

4.5 Mae Deddf y Cyfryngau wedi diwygio darpariaethau perthnasol y Ddeddf, fel bod yn rhaid i Ofcom gynnwys amodau cwota yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5 erbyn hyn (a gwneud penderfyniad ar gyfer S4C) sydd, yn ein barn ni, yn briodol i sicrhau:

- bod y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus (neu S4C) yn darparu cynnwys clyweledol cymwys sy'n cynnwys amrywiaeth o gynyrchiadau gwreiddiol, a
- bod (cyfanswm) hyd y cynyrchiadau gwreiddiol hynny yn cyfateb i o leiaf y nifer oriau mae Ofcom yn credu sy'n "briodol".[42]

4.6 Rhaid i Ofcom wneud y canlynol hefyd:

---

[38] Adran 278 ac Atodlen 12, Rhan 2, paragraff 8 o'r Ddeddf.
[39] Diffinnir oriau cymwys fel yr holl amser darlledu, ac eithrio hysbysebion, rhagflasau, deunydd hyrwyddo a rhaglenni siopa yn y cartref.
[40] Adran 278(2)(b) ac Atodlen 12, Rhan 2, paragraff 8 o'r Ddeddf.
[41] Caiff hyn ei ddiffinio yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004, a gaiff ei ddiwygio gan Reoliadau Cynyrchiadau Gwreiddiol a Chynyrchiadau Rhanbarthol drafft 2025. Mae Adran 278(7A) o'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd, yn darparu y caiff Ofcom eithrio rhaglenni sydd â disgrifiad penodol rhag cael eu cynnwys yn y cwota.
[42] Adran 278 ac Atodlen 12, Rhan 2, paragraff 8 o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau).

- Penderfynu a ddylid dileu neu gadw'r gofyniad oriau brig, ac os caiff ei gadw, pennu'r nifer sylfaenol o oriau o raglenni yn ystod oriau brig ar bob un o'r gwasanaethau hyn sy'n gorfod bod yn gynyrchiadau gwreiddiol,[43]
- Penderfynu a all ailddarllediadau gyfrif tuag at gyflawni'r cwota[44], a
- Cyhoeddi canllawiau y mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hystyried, ynghylch pa raglenni sy'n gallu cyfrif tuag at gyflawni'r cwota.[45]

4.7 Mae Deddf y Cyfryngau yn rhoi'r hyblygrwydd i ddarlledwyr ddarparu'r cwota hwn ar eu IPS dynodedig, yn ogystal â'u prif sianel linol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Er mwyn i raglen gyfrif tuag at y cwota, byddai angen iddi fod ar gael am ddim ar yr IPS dynodedig am o leiaf 30 diwrnod.[46]

4.8 Rydym yn ystyried y newidiadau hyn yng ngweddill yr adran hon.

# Ailddarllediadau

4.9 Fel y nodwyd uchod, yn draddodiadol mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cael caniatâd i gyfrif ailddarllediadau tuag at eu cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol. Fodd bynnag, mae'r hyblygrwydd a roddir i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gan Ddeddf y Cyfryngau i ddefnyddio eu gwasanaethau ar-alw i gyflawni cwota yn cynyddu cwmpas y cynnwys yn sylweddol a allai gyfrif tuag at gwotâu. Y rheswm dros hyn yw bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu gwneud i raglenni a oedd wedi cael eu darlledu ar eu sianeli llinol fod ar gael ar eu gwasanaethau IPS dynodedig, heb y cyfyngiad capasiti annatod sy'n bodoli mewn perthynas ag amserlen ddarlledu linol.

4.10 Yn yr adran hon, rydym yn ystyried bod angen defnyddio gwahanol fathau o ailddarlledu rhaglenni i fodloni cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, ac rydym yn nodi'r dull gweithredu y bwriadwn ei ddefnyddio.. Rydym yn darparu enghreifftiau ymarferol o hyn yn ein Canllawiau drafft (gweler tudalen 7 ymlaen).

## Ailddarllediadau llinol

4.11 Pan fyddwn yn cyfeirio at ailddarllediadau llinol, rydym yn golygu ail-ddangos, ar brif sianel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig neu S4C, gynhyrchiad gwreiddiol sydd eisoes wedi cael ei ddangos am y tro cyntaf naill ar y sianel honno, neu wedi bod ar gael am y tro cyntaf ar IPS dynodedig y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus hwnnw.

4.12 I asesu a ddylid caniatáu i ailddarllediadau llinol gyfrif tuag at gyflawni'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol, fe wnaethom ystyried y goblygiadau i gynulleidfaoedd wrth eithrio ailddarllediadau'n llwyr – gan droi cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, i bob pwrpas, yn gwotâu rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

4.13 Byddai cyfyngu cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol i raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn unig yn symleiddio'r broses o adrodd a monitro perfformiad tuag at y cwotâu, ac yn mynd i'r afael â'r posibilrwydd o gyfrif rhaglenni fwy nag unwaith ar draws

[43] Gweler adran 278(2) o'r Ddeddf (a278(1A) fel y'i diwygiwyd) ac Atodlen 12, Rhan 2, paragraff 8 o'r Ddeddf.
[44] Gweler rheoliad 3A(1) o Orchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004 fel y'i mewnosodwyd gan Reoliadau Cynyrchiadau Gwreiddiol a Chynyrchiadau Rhanbarthol drafft 2025.
[45] Gweler rheoliad 3A(3) o'r Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004 fel y'i diwygiwyd.
[46] Adran 278B(2) o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau) ac adran 264(8B). Nid yw'r gofyniad bod y cynnwys ar gael am 30 diwrnod yn berthnasol i raglenni newyddion na digwyddiadau chwaraeon.

llwyfannau. Fodd bynnag, os nad yw'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C yn gallu cyfrif ailddarllediadau llinol tuag at y cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol mwyach, efallai y byddant yn cael eu cymell i gynyddu presenoldeb rhaglenni a brynir mewn amserlenni llinol. Gallai hyn effeithio ar ansawdd a chymeriad cyffredinol prif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus – y mae cynyrchiadau gwreiddiol o'r DU yn rhan allweddol o hynny.

4.14 Gallai'r newid hwn arwain at oblygiadau penodol i gynulleidfaoedd sydd ag anghenion gwylio sy'n dibynnu'n drwm ar deledu llinol. Mae ein dadansoddiad yn dangos fod gan wylwyr hŷn gysylltiad cryf o hyd â theledu sy'n cael ei ddarlledu, gydag 82% o'r gwylwyr dros 64 oed yn neilltuo eu harferion gwylio fideos gartref i gynnwys sy'n cael ei wylio'n fyw neu wedi'i recordio, ac mae 94% ohonynt yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu ar gyfartaledd bob wythnos yn 2023.[47] Ar ben hynny, mae gwylwyr yn y DU o aelwydydd economaidd-gymdeithasol is dair gwaith yn fwy tebygol na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl unigolion o ddibynnu ar Deledu Daearol Digidol yn unig ar gyfer mynediad i deledu.[48]

4.15 Mae ein hymchwil tracio darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sy'n darparu'r ffynhonnell ar gyfer rhoi tystiolaeth o farn cynulleidfaoedd am raglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn dangos bod cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi cynyrchiadau gwreiddiol o'r DU. Canfu ein harolwg yn 2023 fod 68% o'r ymatebwyr yn rhoi gwerth uchel ar ddarpariaeth darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o "raglenni a wnaed ar gyfer cynulleidfaoedd y DU"..[49] Mae hyn yn awgrymu y gallai unrhyw ostyngiad yn nifer y rhaglenni gwreiddiol ar amserlenni sianeli llinol sy'n deillio o beidio â gadael i ailddarllediadau gyfrif tuag at gwotâu, fod yn anfanteisiol i gynulleidfaoedd. Byddai hyn yn arbennig o amlwg i gynulleidfaoedd sydd ag anghenion ac arferion gwylio sy'n dibynnu'n drwm ar deledu llinol.

4.16 Rydym hefyd yn cydnabod gwerth hyblygrwydd ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig a S4C o ran cyfrannu at gyflawni eu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus. Gallai cyfyngu cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol i gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn unig arwain at gwotâu mwy heriol ar gyfer darlledwyr, yn enwedig os ydynt yn gynyddol yn dilyn strategaethau comisiynu llai o swm, cost uwch.[50] Fel yr amlinellwyd yn ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud wrthym fod y newid hwn yn rhan o'u hymdrechion i ddenu gwylwyr i'w llwyfannau gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr (BVoD) drwy fuddsoddi mewn cynyrchiadau uchel eu gwerth.[51] Felly, gallai dull o'r fath gael yr effaith groes o ddatgymell comisiynu

---

[47] Barb. Mae 'cynnwys sy'n cael ei wylio'n fyw neu wedi'i recordio' yn cyfeirio at gynnwys gan bob darlledwr teledu (darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a rhai sydd ddim yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus) sy'n cael ei wylio ar setiau teledu yn fyw ar yr adeg y caiff ei ddarlledu neu drwy ddyfais recordio fel DVR. Daw cyfran y gwylio cynnwys darlledwyr o'r holl wylio fideos yn y cartref ar draws pob dyfais. Meini prawf cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd: 15+ munud ar gyfer 28 diwrnod cyfunol o wylio, ar setiau teledu yn unig.
[48] Arolwg Sefydliad Barb Ch3 2023 - mae teledu daearol digidol yn unig yn cyfeirio at y rheini sydd ag erial nad oes ganddynt gysylltiad lloeren, cebl nac unrhyw gysylltiad rhyngrwyd â'u set deledu, sy'n golygu eu bod yn dibynnu ar y gwasanaeth teledu daearol digidol i wylio unrhyw deledu.
[49] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023. C26. Yn dda (7-10) Crynodeb – Pa mor dda neu wael fyddech chi'n ei ddweud eu bod yn darparu ...?
[50] Yn nogfen strategaeth digidol yn gyntaf Channel 4, mae'n amlinellu dull gweithredu ar gyfer torri drwodd gyda llai o deitlau newydd cryfach i gynhyrchu mwy o raddfa ac effaith, ac i bwysleisio ein hymrwymiad i fod yn gartref i ddoniau a syniadau newydd (Fast Forward - Channel 4 Strategy Summary, t. 2). Mae hyn yn adlewyrchu tuedd ehangach yn y diwydiant, gyda darlledwyr eraill yn mabwysiadu strategaethau tebyg. Er enghraifft, mae'r BBC yn blaenoriaethu cynyrchiadau llai, mwy, gwell sydd wedi'u llunio i ddenu gwylwyr at wasanaethau BVoD.
[51] Gweler ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019-23), t. 55.

sioeau cost-yr-awr uwch, yn aml ymysg y rhai sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf gan gynulleidfaoedd, ac yn aml y math o raglenni sy'n addas yn eu hanfod ar gyfer ailddarlledu (fel drama).

4.17 I gloi, rydym yn cynnig parhau i ganiatáu i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig a S4C gyfrif ailddarllediadau llinol tuag at gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, gan adlewyrchu'r sefyllfa status quo presennol. I ganiatáu ar gyfer ailddarllediadau llinol o gynnwys gwreiddiol ar-lein, bydd hyn yn cynnwys ailadrodd rhaglen sydd wedi bod ar gael am y tro cyntaf ar wasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny, os yw'r rhaglen honno eisoes wedi bod ar gael yn rhad ac am ddim ac yn llwyr ar y gwasanaeth rhaglenni ar-alw am 30 diwrnod.[52]

## Rhaglenni catalog a rhaglenni dal i fyny

4.18 Wrth sôn am raglenni catalog, rydym yn golygu rhaglenni a ddarlledwyd yn flaenorol sydd ar gael i'w ffrydio ar-alw. Mae hyn yn cynnwys cyfresi llawn sy'n cael eu cynnig fel setiau bocs (er enghraifft, tymor cyfan o gyfresi drama fel *Downton Abbey*), yn ogystal â phenodau o raglenni ôl-gatalog hŷn fel *Coronation Street*.

4.19 Gall darlledwyr hefyd sicrhau bod rhaglenni dal i fyny ar gael, sef rhaglenni sydd ar gael drwy wasanaethau ar-alw yn fuan ar ôl eu darlledu'n llinol. Gall hyn gynnwys ailddarllediadau llinol sydd ar gael ar-alw fel rhaglenni dal i fyny.

4.20 Er ein bod yn cydnabod y gwerth y mae llawer o gynulleidfaoedd yn ei gael o fynediad at raglenni catalog a rhaglenni dal i fyny, rydym yn credu y gallai caniatáu i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddefnyddio cynnwys o'r fath i gyflawni eu cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol hwyluso strategaeth, mewn rhai amgylchiadau, i leihau'n sylweddol faint o gynnwys newydd sy'n cael ei ddarparu. Er enghraifft, gallai darlledwr fodloni eu cwota drwy lanlwytho llawer iawn o raglenni o'r archif, a oedd wedi cael eu dangos am y tro cyntaf ar eu gwasanaeth llinol yn ystod blynyddoedd blaenorol. Gallai hefyd olygu y byddai un rhaglen yn gallu cyfrif nifer o weithiau, er enghraifft pe bai ei ffenestr drwyddedu wedi dod i ben ac yna'n cael ei hadnewyddu.

4.21 Ar gyfer trwyddedeion rhanbarthol Sianel 3, byddai rhagor o bosibilrwydd y byddai rhaglenni rhanbarthol unigol sydd ar gael ar yr IPS dynodedig yn cael eu cyfrif fwy nag unwaith, a allai gynyddu oriau sy'n gallu cyfrif tuag at y cwota.

4.22 O'r herwydd, nid ydym yn cynnig caniatáu i raglenni catalog neu raglenni dal-i-fyny gyfrannu at gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol.[53] Byddai caniatáu cynnwys y math hwn o raglen yn achosi risg o fod yn anghyson ag amcanion craidd yr ymyriad, a lleihau'r cymhellion i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gomisiynu rhaglenni newydd.

# Rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos ar-lein

4.23 Mae newidiadau Deddf y Cyfryngau yn golygu os yw rhaglen ar gael yn gyntaf gan y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig neu S4C ar wasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu'n rhan o hynny, gall gyfrif tuag at gyflawni'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol. Ni all rhaglenni sydd ond yn cael eu cynnwys mewn sianeli ffrydio "byw" ac sy'n

[52] Yn ein Canllawiau drafft, rydym yn nodi hyn ym mharagraffau 2.25 – 2.29.
[53] Yn ein Canllawiau drafft, rydym yn nodi hyn ym mharagraff 2.28.

cael eu gweld drwy IPS dynodedig gyfrif tuag at gyflawni'r cwota (gan nad yw'r rhaglenni ar gael ar alw yn yr ystyr nad ydynt ar gael i'w gwylio ar adeg a ddewisir gan y defnyddiwr).[54]

4.24 Mae caniatáu rhaglenni y gellir eu dangos ar fwy nag un llwyfan yn creu'r posibilrwydd y bydd yr un rhaglen yn cael ei chyfrif fwy nag unwaith. I osgoi hyn, rydym yn cynnig mai dim ond unwaith, drwy ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, y gall rhaglenni gwreiddiol ar-lein gyfrif tuag at y cwota cynyrchiadau gwreiddiol, ac na all cynnwys ar-lein sydd eisoes wedi cael ei ddarlledu'n llinol gyfrif tuag at hyn. Credwn fod hyn yn ffordd ymarferol o roi'r hyblygrwydd a'r rhyddid i ddarlledwyr fodloni cwotâu gan ddefnyddio eu IPS dynodedig, ac osgoi'r risg o gyfrif fwy nag unwaith.

4.25 Ar ben hynny, rydym o'r farn y dylai cynnwys gwreiddiol ar-lein ond cyfrif tuag at y cwota os yw ond ar gael am ddim ar wasanaeth rhaglenni ar-alw darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig neu S4C, sy'n wasanaeth IPS dynodedig, neu ran o hynny, am o leiaf 30 diwrnod. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith, o dan y ddeddfwriaeth, na all rhaglen ond cyfrif fel un sydd "ar gael" at ddibenion cwota ar ddiwedd y cyfnod o 30 diwrnod, .[55] Mae hyn hefyd yn osgoi rhagor o bosibilrwydd o gyfrif teitlau nifer o weithiau o ganlyniad i raglenni a allai gael eu rhyddhau ar-lein ac yn llinol ar yr un pryd, neu o fewn cyfnod byr.[56] Er enghraifft, dim ond unwaith y byddai rhaglen sy'n cael ei rhyddhau ar wasanaeth rhaglenni ar-alw cyn cael ei darlledu ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, yn cyfrif tuag at gwotâu. Ar ben hynny, byddai hyn hefyd yn golygu na fyddai rhaglen sy'n cael ei rhyddhau ar wasanaeth rhaglenni ar-alw ac sy'n cael ei darlledu ar sianel portffolio heb fod yn sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus o fewn 30 diwrnod yn gallu cyfrif tuag at gwotâu.[57]

4.26 Rydym yn ymwybodol bod darlledwyr yn parhau i arbrofi gyda strategaethau rhyddhau cynnwys ar gyfer eu comisiynau – a allai olygu cynnydd yn y dyfodol yn nifer y cynnwys sydd ar gael ar-lein yn unig. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, rydym yn deall mai ychydig iawn o raglenni sydd ar gael ar-lein yn unig, gyda'r mwyafrif helaeth o'r cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael drwy lwyfannau llinol ac ar-alw.

4.27 Mae rhai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud wrthym hefyd fod ymgysylltiad cynulleidfaoedd yn gallu bod yn uwch weithiau pan fydd darllediadau ar-lein a darllediadau llinol cyntaf yn nes at ei gilydd, gan fod teitlau'n gallu elwa o bobl yn siarad amdanynt ymysg ei gilydd. O'r herwydd, nid ydym yn credu y bydd ein cynnig i raglenni gwreiddiol ar-lein gael eu cyfrif dim ond os ydynt ar gael am 30 diwrnod yn unig, yn debygol o arwain at unrhyw oedi i ddarllediadau llinol er mwyn cynyddu cyfraniad rhaglen at gwotâu.

4.28 Wrth ganiatáu i raglenni gwreiddiol ar-lein gyfrif tuag at gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarlledwyr ac ar gynulleidfaoedd oherwydd yr hyblygrwydd cynyddol y bydd yn ei roi i ddarlledwyr o ran rhoi eu strategaethau cynnwys ar waith. Bydd hyn, yn ei dro, yn eu galluogi i ymateb i newidiadau yn newisiadau cynulleidfaoedd.

---

[54] Mae Adran 368A o'r Ddeddf yn nodi diffiniad "gwasanaeth rhaglen ar-alw".

[55] Adran 278(B)(2) o'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau.

[56] Fodd bynnag, ni fyddai'r gofyniad hwn yn berthnasol i raglenni newyddion neu ddigwyddiadau chwaraeon sy'n cael eu darparu ar-lein yn unig – a byddem yn caniatáu iddynt gyfrif tuag at y cwota.

[57] Yn ein Canllawiau drafft, rydym yn nodi hyn ym mharagraff 2.14, ac o dan yr 'enghreifftiau ymarferol'. Rydym hefyd yn nodi ein dull gweithredu ar gyfer rhyddhau cynnwys ar-lein sy'n pontio blynyddoedd calendr ym mharagraff 2.15.

## Rhaglenni oriau brig

4.29 Ar hyn o bryd, mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C rwymedigaethau penodol sy'n ymwneud â chynyrchiadau gwreiddiol sy'n cael eu darlledu yn ystod y cyfnod gwylio brig – rhwng 18:00 a 22:30. Mae Deddf y Cyfryngau yn ei gwneud yn ofynnol i ni benderfynu a ddylem gadw neu ddileu'r gofyniad hwn, ac os ydym yn ei gadw, cynnig nifer sylfaenol o oriau o raglenni gwreiddiol i ddarlledwyr eu cynnwys yn ystod oriau brig.[58]

4.30 Er bod yna gyfnodau pan fo cynulleidfaoedd ar-lein yn tueddu i wylio mwy o gynnwys, nid yw'r cysyniad o raglenni oriau brig sy'n seiliedig ar amserlenni darlledu yn uniongyrchol berthnasol i wasanaethau ar-alw, lle gall gwylwyr ddewis beth i'w wylio ar unrhyw adeg. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y newidiadau a wnaed gan Ddeddf y Cyfryngau – gan mai dim ond i brif sianel linol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus y gall unrhyw ofyniad gwylio oriau brig barhau i fod yn berthnasol.[59]

4.31 Tra bo'r gyfran gwylio ar-lein wedi tyfu dros sawl blwyddyn, mae gwylio llinol yn dal yn sylweddol, gyda 40% o'r gwylio fideos gartref y pen y dydd yn 2023 yn digwydd drwy ddarlledu byw a 9% arall drwy ddarlledu wedi'i recordio.[60] Yr amser gwylio brig yw'r amser gwylio mwyaf poblogaidd, o bell ffordd, i'r cynulleidfaoedd llinol hynny. Yn 2023, roedd nifer cyfartalog y bobl sy'n gwylio sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fyw yn ystod oriau brig yn oddeutu 6.4 miliwn – llawer uwch na'r 1.8 miliwn sy'n gwylio'n fyw y tu allan i oriau brig.[61]

4.32 Mae rhai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud wrthym fod cynnwys gwreiddiol yn dal yn bwysig i'w hamserlennu yn ystod yr oriau brig, gan fod y rhan hon o'r amserlen yn gyfle hollbwysig i ddarlledwyr ymgysylltu â'u cynulleidfaoedd mwyaf. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu'n llwyr i ddemograffeg hŷn – er bod oedolion iau yn tueddu i wylio llai o deledu wedi'i ddarlledu, mae canran o'u hamser gwylio teledu wedi'i ddarlledu yn ystod oriau brig yn uwch nag ar gyfer oedolion hŷn.[62]

4.33 Er ein bod yn disgwyl y bydd mwy o wylio ar-lein yn y tymor hwy, rydym yn credu y byddai cynnal cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol oriau brig yn parhau i wasanaethu buddiannau'r cynulleidfaoedd hynny sy'n dewis neu sy'n dibynnu ar wasanaethau llinol, gan helpu i sicrhau bod rhaglenni gwreiddiol darlledwyr yn parhau i fod o fewn cyrraedd y grwpiau hyn. Ac ystyried pwysigrwydd rhaglenni gwreiddiol o ran cyfrannu at gylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus, rydym o'r farn ei bod yn briodol cynnal y gofyniad iddynt gael eu darlledu yn ystod y cyfnodau brig pan fydd cynulleidfaoedd ar eu mwyaf.

4.34 Nid ydym yn disgwyl i'n cynnig i gadw gofyniad oriau brig arwain at unrhyw effeithiau ar ddarlledwyr, cynulleidfaoedd na'r sector cynhyrchu o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Y rheswm dros hyn yw y bydd y manteision a gaiff cynulleidfaoedd, a'r baich rheoleiddio a brofir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig a S4C, yn cael eu cynnal, ac nid oes disgwyl unrhyw newidiadau i'r sector cynhyrchu. Rydym yn nodi manylion y lefelau

[58] Adran 278(1A) ac Atodlen 12, Rhan 2, paragraff 8 o'r Ddeddf.
[59] Adran 278(1A) o'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau.
[60] Barb, fel y'i gwelwyd.
[61] Barb, yn fyw, drwy setiau teledu yn unig. Mae'n cynnwys y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac eithrio sianeli +1, sianeli portffolio'r BBC ac S4C, unigolion 4+.
[62] Barb, gwylio byw ar setiau teledu yn unig.

rydym yn cynnig eu gosod mewn perthynas ag oriau brig yn Ffigur 2, ar ddiwedd yr adran hon.

## Canllawiau Ofcom

4.35 Mae'r Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno canllawiau am y mathau o raglenni sy'n gallu cyfrif at gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol ac nad ydynt yn gallu cyfrif. Rydym yn darparu hyn yn ein Canllawiau drafft yma.

4.36 Bydd y Canllawiau Cynyrchiadau Gwreiddiol hyn i gyd yn berthnasol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac i S4C.[63] Bydd yn berthnasol i'r BBC at ddibenion ei gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, ac fel yr eglurir yn y Canllawiau eu hunain.[64] O dan delerau Cytundeb Fframwaith y BBC, mae cwotâu Cynyrchiadau Gwreiddiol y BBC yn dal wedi'u gosod fel cyfran o'r rhaglenni sydd wedi'u cynnwys ar ei sianeli llinol.

4.37 Mae'r Canllawiau drafft:

- yn nodi pa raglenni sy'n gymwys i gael eu cynnwys yn y cwota cynyrchiadau gwreiddiol. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa a nodir uchod;
- yn esbonio ein dull gweithredu gyda rhaglenni a allai fod wedi cael eu comisiynu ar y cyd neu eu cyd-gynhyrchu gan ddarlledwr gyda sefydliad arall. Rydym ni'n cynnig bod modd ystyried cynyrchiadau o'r fath fel rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu gwneud neu eu comisiynu gan y darlledwr os oes mwy na 25% o gost y rhaglen wedi cael ei thalu gan y darlledwr y bydd y rhaglen yn ymddangos ar ei wasanaeth. Rydym hefyd wedi cynnig cadw ein dull gweithredu hanesyddol gyda rhaglenni o'r fath, yn ogystal â nodi bod yn rhaid i'r rhaglen fod wedi cael ei chomisiynu gyda'r bwriad o'i rhyddhau gyntaf yn y DU ar brif sianel linol y darlledwr neu ar ei IPS dynodedig.[65]
- yn esbonio bod cydgynhyrchiad sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf y tu allan i'r DU yn dal yn gallu cyfrif tuag at gwota os yw'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn y DU ar brif sianel linol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig neu ar ei wasanaeth ar-alw, a'i fod yn bodloni'r meini prawf eraill ar gyfer bod yn gynhyrchiad gwreiddiol.[66]
- yn egluro ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig a S4C, y bydd cynyrchiadau gwreiddiol sydd ar gael am y tro cyntaf ar wasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu'n rhan o hynny, yn ogystal â phrif wasanaeth llinol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C, yn cyfrannu at gyflawni'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol, ar yr amod bod y rhaglen wedi bod ar gael, am ddim, am o

[63] Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, rydym yn cynnig gosod amodau sy'n mynnu bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig yn ystyried y Canllawiau hyn, a chyhoeddi cyfarwyddyd i S4C i'r un perwyl. Gweler Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynyrchiadau Gwreiddiol a Chynyrchiadau Rhanbarthol drafft 2025, rheoliadau 3A a 4A.

[64] Cytundeb Fframwaith y BBC, Atodlen 2, paragraff 5(3).

[65] Gweler y Canllawiau drafft, paragraffau 2.10 – 2.13 a 2.21 – 2.24.

[66] Gweler y Canllawiau drafft, paragraffau 2.12 a 2.23.

leiaf 30 diwrnod.[67] Mae hefyd yn darparu enghreifftiau ymarferol o sawl gwaith y gall rhaglen gyfrif tuag at y cwota.[68]

4.38 Rydym yn cynnig y bydd y Canllawiau Cynyrchiadau Gwreiddiol yn dod i rym ar 1 Ionawr 2026, pan fydd y cwotâu wedi'u diweddaru yn dod i rym.

## Trosi'r cwotâu cyfrannol yn rhifau absoliwt

4.39 Yn Ffigur 2, isod, rydym yn nodi manylion y lefelau cwota a gynigir gan ddefnyddio'r dull gweithredu a nodir yn Adran 3. Rydym wedi cymryd cyfartaledd o oriau cymwys o'r pum mlynedd diwethaf (2019-2023 ar hyn o bryd) ac wedi lluosi hyn â lefel ganrannol gyfredol cwota cyfredol pob trwyddedai i gyfrifo'r lefelau cwota arfaethedig. Fel rydym wedi'i nodi yn Adran 3, os bydd data terfynol ar gael ar gyfer 2024 cyn dechrau proses ffurfiol amrywio'r trwyddedau yn ddiweddarach y flwyddyn hon, rydym yn cynnig diweddaru ein cyfrifiadau i ddefnyddio amserlen 2020-24.

4.40 Rydym wedi gwneud mân addasiad pellach i gysoni trwyddedau Sianel 3 er cysondeb ac i sicrhau cydraddoldeb rhwng trwyddedeion rhanbarthol yn Lloegr a'r trwyddedeion rhanbarthol eraill. Arweiniodd cyfrifiadau unigol ar gyfer STV, UTV ac ITV Cymru at ofynion ychydig yn uwch ar y trwyddedeion hynny, felly yn lle hynny rydym ni wedi cysoni'r rhain â rhanbarthau ITV yn Lloegr, gan adlewyrchu y dylai pob un trwyddedai rhanbarthol gael yr un baich rheoleiddiol o ystyried bod ganddynt drwyddedau union yr un fath. Mae gofynion Dyddiau'r Wythnos a Phenwythnosau ITV London yn cynrychioli gofynion rhanbarthol ITV a roddwyd ar sail pro rata i adlewyrchu gwahanol ddiwrnodau'r wythnos y mae'r gwasanaethau hyn ar gael o dan eu trwyddedau.

4.41 O ran yr effaith ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C, rydym yn disgwyl na fydd y dull hwn yn arwain at fwy o faich rheoleiddio oherwydd bod y cwota yn cael ei gynnal yn gyffredinol, mewn termau absoliwt. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, gan na fydd y cwota absoliwt yn addasu i newidiadau mewn lefelau allbwn sylfaenol yn yr un ffordd â chwotâu cyfrannol, y gallai'r baich rheoleiddio gynyddu neu leihau ychydig yn dibynnu ar lefelau cynhyrchu neu wariant mewn unrhyw flwyddyn benodol. Nid ydym ychwaith yn disgwyl i unrhyw effeithiau arwyddocaol godi o ran cynulleidfaoedd na chynhyrchwyr.

[67] Gweler adran 278B(2), 264(8B) a 264(8C) o'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau. Nid yw'r gofyniad bod y cynnwys ar gael am 30 diwrnod yn berthnasol i raglenni newyddion na digwyddiadau chwaraeon.

[68] Gweler y Canllawiau drafft, paragraff 2.14 ac 'enghreifftiau ymarferol'.

**Ffigur 2: Cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol arfaethedig**

| Gwasanaeth | Gofyniad cyfrannol cyfredol | Gofyniad absoliwt arfaethedig | Gofyniad oriau brig cyfrannol ar hyn o bryd | Gofyniad oriau brig absoliwt arfaethedig |
|---|---|---|---|---|
| **Trwyddedau Sianel 3 a weithredir gan ITV ac STV** | 65% | 3,670 awr | 85% | 1,150 awr |
| **ITV Breakfast** | 80% | 800 awr | Amh - Trwydded brecwast ar yr awyr 06:00 – 09:25 | Amh - Trwydded brecwast ar yr awyr 06:00 – 09:25 |
| **ITV London Dyddiau'r wythnos** | 65% | 2,340 awr | 85% | 660 awr |
| **ITV London Penwythnosau** | 65% | 1,330 awr | 85% | 490 awr |
| **Channel 4** | 45% | 3,160 awr | 70% | 960 awr |
| **Channel 5** | 50% | 3,240 awr | 45% | 600 awr |
| **S4C** | 80% | 5,210 awr | 90% | 1,390 awr |

Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Mae "Trwyddedau Sianel 3 a weithredir gan ITV ac STV" yn cynnwys gofynion cynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer holl drwyddedau rhanbarthol Lloegr ITV (ac eithrio ardal Llundain), ITV Cymru Wales, Ynysoedd y Sianel, STV North, STV Central ac UTV. Mae gofynion rhaglenni cynyrchiadau gwreiddiol ar gyfer "trwyddedau Sianel 3 a weithredir gan ITV ac STV", gwasanaethau Dyddiau'r Wythnos Llundain a gwasanaethau Penwythnosau Llundain yn cynnwys rhaglenni rhwydwaith a rhaglenni rhanbarthol, ond nid ydynt yn cynnwys oriau ITV Breakfast.

# 5. Cynyrchiadau rhanbarthol

## Cyflwyniad

5.1 Mae'n ofynnol i Ofcom osod cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5.[69] Mae cynhyrchiad rhanbarthol yn cael ei gyfrif fel un wedi'i wneud yn y DU, y tu allan i ardal yr M25. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i Ofcom bennu isafswm yr oriau ac isafswm y gwariant y mae'n rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig eu cynnwys ar eu sianel linol. Mae'r cwotâu hyn yn cael eu gosod yn y trwyddedau fel cyfrannau o gyfanswm rhaglenni'r sianel (yn ôl amser a gwariant) o ran rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU. Mae cwota cynyrchiadau rhanbarthol Gwnaed y Tu Allan i Loegr ychwanegol wedi'i gynnwys yn nhrwydded Channel 4.

5.2 Yn ogystal â'r cwotâu hyn, mae'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus statudol ar gyfer teledu yn cynnwys gofyniad y dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd, cyn belled â'u bod yn cynnwys rhaglenni a wneir yn y DU, gynnwys yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel amrywiaeth a chyfran briodol o raglenni a wneir y tu allan i ardal yr M25. Mae hefyd yn cynnwys gofyniad y dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd gynnwys yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel nifer ddigonol o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon gwahanol gymunedau a diddordebau a thraddodiadau diwylliannol yn y DU, ac yn lleol mewn gwahanol rannau o'r DU.[70] Rydym ni o'r farn bod cynhyrchu rhaglenni ledled y DU yn cyfrannu at gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus.

5.3 Mae'r cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn berthnasol i raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y DU yn unig, ac nid ydynt yn berthnasol i raglenni newyddion. Hefyd, nid yw'r cwotâu yn berthnasol i gynnwys a gaiff ei hunanhyrwyddo na rhaglenni a gaiff eu prynu.

5.4 Mae Deddf y Cyfryngau wedi diwygio darpariaethau perthnasol y Ddeddf, fel bod yn rhaid i Ofcom gynnwys amodau cwota yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5 sydd, yn ein barn ni, yn briodol i sicrhau bod y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn "darparu" nifer sylfaenol o oriau o gynyrchiadau rhanbarthol bob blwyddyn. Dylid mynegi'r cwotâu hyn mewn termau absoliwt (hynny yw, wedi'u pennu fel nifer absoliwt o oriau a swm y gwariant) yn hytrach na fel cyfran.[71] Bydd cynyrchiadau rhanbarthol sydd "ar gael" ar brif sianel linol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig, yn ogystal ag ar wasanaethau rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu'n rhan o hynny, yn gallu cyfrif tuag at gyflawni'r cwota.

5.5 Mae Gorchymyn drafft a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 6 Mai 2025 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn penderfynu a all ailddarllediadau gyfrif tuag at gyflawni'r cwota cynyrchiadau rhanbarthol.[72]

[69] Adran 286 (mewn perthynas â Sianeli 3 a 5) a 288 (mewn perthynas â Channel 4) o'r Ddeddf.
[70] Adran 264 o'r Ddeddf.
[71] Adrannau 286 a 288 o'r Ddeddf.
[72] Gweler Rheoliad 2 Gorchymyn o Reoliadau Cynyrchiadau Gwreiddiol a Chynyrchiadau Rhanbarthol drafft 2025.

5.6 Ar ben hynny, mae'r Ddeddf yn mynnu bod y cynyrchiadau rhanbarthol yn cynrychioli'r hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel ystod addas o raglenni, o amrywiaeth o ganolfannau cynhyrchu gwahanol.[73]

5.7 Yn yr adran hon, rydym ni'n ystyried y canlynol:

- A ddylai ailddarllediadau barhau i gael eu heithrio o gyflenwi cwota;
- Canllawiau ar y rhaglenni sy'n cyfrif tuag at gyflenwi cwota; a
- Trosi'r cwotâu cyfrannol yn nifer absoliwt o oriau a gwariant.

## Ailddarllediadau

5.8 O dan reoliad 2 o'r Gorchymyn Cynyrchiadau Gwreiddiol a Chynyrchiadau Rhanbarthol 2025, mae'n rhaid i ni benderfynu a ddylid parhau i eithrio ailddarllediadau o gynyrchiadau rhanbarthol rhag cael eu cynnwys mewn cwotâu.

5.9 Dim ond i raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf y mae'r cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol yn berthnasol ar hyn o bryd. Mae hyn yn helpu i sicrhau cyflenwad o gynyrchiadau newydd a wneir yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU, gan adlewyrchu'r wlad yn ôl iddi hi ei hun, yn ogystal â buddsoddiad parhaus ar draws amrywiaeth o ganolfannau cynhyrchu.

5.10 Fel y trafodwyd yn ein cyhoeddiad diweddar fel rhan o'n hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, mae buddsoddi mewn rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar draws y DU yn helpu i ddatblygu capasiti cynhyrchu ac mae hefyd yn bwysig er mwyn gwella cynrychiolaeth a phortreadu cynulleidfaoedd mewn ffordd ddilys.[74] Ac ystyried hyn, nid ydym yn cynnig gwneud newidiadau i'r dull presennol, sy'n eithrio ailddarllediadau rhag cyfrif tuag at gwotâu cynyrchiadau rhanbarthol.

5.11 Yn ogystal, fel yr amlinellir yn Adran 4 mewn perthynas ag ailddarllediadau, mae risg y gallai cynhyrchiad rhanbarthol sy'n ymddangos am y tro cyntaf ar IPS dynodedig darlledwr ac sy'n cael ei ddarlledu'n ddiweddarach ar y sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig o fewn yr un flwyddyn galendr gael ei gyfrif ddwywaith — o ran oriau a gwariant.

5.12 Er mwyn atal yr un rhaglen rhag cael ei chyfrif fwy nag unwaith, rydym ni'n cynnig mai dim ond pan fo rhaglen gymwys yn cael ei rhyddhau am y tro cyntaf y dylai barhau i gyfrif tuag at y cwota cynyrchiadau rhanbarthol, boed hynny ar wasanaeth llinol neu IPS dynodedig. Byddai hyn yn sicrhau nad yw rhaglenni catalog na rhaglenni dal i fyny yn cael eu cynnwys, gan fod y rhain yn cynnwys cynyrchiadau sydd eisoes wedi cael eu rhyddhau, a chostau a ysgwyddwyd. Rydym ni hefyd yn cynnig nad yw rhaglen sy'n cael ei rhyddhau ar IPS dynodedig ac sy'n cael ei darlledu ar sianel portffolio heb fod yn sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus o fewn 30 diwrnod, yn gallu cyfrif tuag at gwotâu cynyrchiadau rhanbarthol.

5.13 Rydym ni'n disgwyl i'n cynigion gael effaith gadarnhaol ar ddarlledwyr a chynulleidfaoedd, oherwydd bydd gallu cyfrif rhaglenni comisiwn sy'n cael eu rhyddhau am y tro cyntaf ar-lein

[73] Nid yw'r gofyniad hwn wedi newid o dan Ddeddf y Cyfryngau. Mae canllawiau Ofcom ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol (a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2019) yn nodi, er mwyn i raglen gyfrif tuag at y cwota, ei bod yn rhaid i gynyrchiadau perthnasol fodloni dau o'r tri maen prawf canlynol: a) Canolfan sylweddol y tu allan i'r M25; b) O leiaf 70% o gyfanswm y gwariant cynhyrchu y tu allan i'r M25; ac c) Man cyflogaeth arferol o leiaf 50% o'r talentau cynhyrchu, yn ôl y gost, y tu allan i'r M25.

[74] Gweler ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019-23), t.44.

yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr, a fydd yn ei dro yn eu galluogi i ymateb i newidiadau yn yr hyn sydd orau gan gynulleidfaoedd.

5.14 Drwy roi'r dull hwn ar waith, dim ond swm a gwariant darllediad cyntaf rhaglen fyddai'n cyfrannu at gyflawni cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol. Yn ein canllawiau drafft, rydym ni'n nodi enghraifft ymarferol o sut mae hyn yn gweithio[75] (rydym ni'n trafod y canllawiau yn yr adran nesaf), a'n dull gweithredu arfaethedig pan fydd rhaglen neu gyfres yn pontio blynyddoedd calendr.

## Canllawiau

5.15 Rydym ni'n rhoi manylion yn y Canllawiau drafft ar Gynyrchiadau Rhanbarthol yma ar y rhaglenni a all gyfrif tuag at gyflawni cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig.

5.16 Mae cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol ar hyn o bryd yn eithrio rhai mathau o raglenni: rhaglenni sy'n cael eu prynu, ailddarllediadau, rhaglenni newyddion, rhaglenni siopa gartref, amser cau, munudau hysbysebu, deunydd hyrwyddo a rhagflasau.

5.17 Mae Deddf y Cyfryngau yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig o ran cyflawni eu cwotâu drwy wasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny, ond nid yw'n cynnwys newidiadau sy'n effeithio ar y math o raglenni y dylid eu cynnwys neu eu heithrio rhag cyfrif tuag at y cwota.

5.18 O ganlyniad, nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r eithriadau presennol, sy'n golygu y byddwn yn cynnal ein dull presennol o ran pa fath o raglenni sy'n gallu cyfrif fel cynhyrchiad rhanbarthol.

5.19 Rydym ni'n cynnig diweddaru'r Canllawiau Cynyrchiadau Rhanbarthol i roi'r newidiadau eraill sy'n ofynnol o dan Ddeddf y Cyfryngau ar waith. Ac ystyried y newidiadau cyfyngedig rydym ni wedi'u gwneud i'r canllawiau i adlewyrchu Deddf y Cyfryngau, rydym ni wedi cyhoeddi'r canllawiau drafft gyda'r newidiadau wedi'u marcio er mwyn i randdeiliaid allu gweld y newidiadau rydym ni'n eu cynnig.[76] Mae'r rhain yn cynnwys diweddariadau technegol i egluro y gellir defnyddio rhaglenni sydd ar gael ar wasanaethau clyweledol cymwys[77] (gan gynnwys deunydd sy'n cael ei roi ar wasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig neu'n rhan o hynny) i gyflawni rhwymedigaethau cwota. Rydym hefyd wedi cynnig mân ddiwygiad i gydnabod bod y rhaglenni sy'n cael eu comisiynu yn gallu helpu i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu cynrychioli a'u portreadu yn y DU (edrychwch ar baragraff 1.4 yn y Canllawiau drafft).[78]

---

[75] Gweler Canllawiau drafft ar Gynyrchiadau Rhanbarthol, Ffigur 1.

[76] Yn benodol, rydym ni wedi gwneud newidiadau i baragraffau 1.1 - 1.4, 1.6 a 2.1 – 2.12 y Canllawiau drafft. Rydym hefyd wedi diweddaru troednodiadau 8 – 11 i adlewyrchu ein canllaw arddull diweddaraf at ddibenion hygyrchedd. Nid ydym yn dangos newidiadau i'r fformatio yn y Canllawiau drafft. Rydym wedi diweddaru paragraffau 1 – 6 y Canllawiau Cynyrchiadau Rhanbarthol presennol.

[77] Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau darlledu teledu (hynny yw, y sianeli gwasanaeth cyhoeddus) a gwasanaethau rhaglenni ar-alw sydd yn IPS dynodedig neu'n rhan o hynny, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu ychwanegu rhagor o wasanaethau clyweledol drwy reoliadau.

[78] Mae'r newid hwn yn adlewyrchu ein disgrifiad o nodau'r cwotâu hyn uchod ac mewn cyhoeddiadau diweddar. Er enghraifft, ein Datganiad ar adnewyddu Trwydded Channel 4 a'n Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019 - 23).

5.20 Mae'r Canllawiau Cynyrchiadau Rhanbarthol yn berthnasol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig a'r BBC.[79] Fodd bynnag, mae ein newidiadau arfaethedig i'r Canllawiau yn effeithio ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig yn unig. Nid yw Deddf y Cyfryngau wedi newid cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol y BBC a'r gwasanaethau y caiff eu defnyddio i'w diwallu.

## Trosi'r cwotâu cyfrannol yn rhifau absoliwt

5.21 Rydym ni'n cynnig defnyddio'r dull gweithredu fel y nodir yn Adran 3 wrth bennu lefelau cwota arfaethedig. Rydym ni wedi cymryd cyfartaledd o wariant ac oriau cymwys o'r pum mlynedd diwethaf (2019-2023 ar hyn o bryd) ac wedi lluosi hyn â lefel ganrannol gyfredol cwota cyfredol pob trwyddedai i gyfrifo'r lefelau cwota arfaethedig. Yn Ffigur 3 isod, at ddibenion cyfrinachedd, rydym ni wedi nodi'r ystod lle mae'r ffigur gwario rydym ni wedi'i gyfrifo yn perthyn.

5.22 Fel sy'n cael ei drafod yn Adran 3, rydym yn cynnig gosod lefelau absoliwt sy'n cyd-fynd â gofynion y system bresennol sydd, yn ein barn ni, wedi sicrhau "nad oes llai na swm sylweddol" o wariant cynhyrchu cyffredinol cymwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU wedi'i wario ar gynyrchiadau rhanbarthol bob blwyddyn.

5.23 Hefyd, fel y trafodwyd yn gynharach, fe wnaethom gwblhau prosesau adnewyddu trwydded ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig yn ddiweddar, gan adolygu perfformiad trwyddedeion yn unol â'r cwota hefyd. Fel rhan o'r broses hon, roeddem wedi cynyddu gofyniad Channel 4 ar gyfer gwariant ar gynyrchiadau ac oriau sy'n cael eu gwneud yn y DU y tu allan i Loegr o 9% i 12% o 2030 ymlaen.

5.24 Ffigurau Sianel 3 yw cyfanswm yr oriau y mae'n rhaid i drwyddedeion Sianel 3 eu darparu *yr un*, a chyfanswm y gwariant y mae'n rhaid i drwyddedeion Sianel 3 ei wario *ar y cyd*.[80] Mae trefniadau rhwydweithio ymysg trwyddedeion Sianel 3 yn caniatáu i raglenni sy'n cael eu comisiynu neu eu cynhyrchu gan un trwyddedai rhanbarthol gyfrif tuag at gwota un arall, ar yr amod bod y rhaglen hefyd yn cael ei darlledu ar wasanaeth llinol rhanbarthol y llall neu ar gael ar yr IPS dynodedig.

5.25 O ran effaith ein cynigion ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig, cynulleidfaoedd a chynhyrchwyr, rydym ni'n disgwyl i'r rhain fod yr un fath ag effaith y cwota cynyrchiadau gwreiddiol a nodwyd gennym ym mharagraff 4.41, gan fod y dull rydym ni wedi'i ddefnyddio yr un fath.

**Ffigur 3: Cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol arfaethedig**

[79] Nid yw'r Canllawiau Cynyrchiadau Rhanbarthol yn berthnasol i S4C gan nad yw'n ddarostyngedig i gwotâu cynyrchiadau rhanbarthol.
[80] Gweler adran 286(1)(c) o'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd.

| | Gofyniad cyfrannol cyfredol | Cynyrchiadau rhanbarthol (oriau) | Cynyrchiadau rhanbarthol (gwariant) ar gyfer 2026 |
|---|---|---|---|
| **Trwyddedeion rhanbarthol Sianel 3** | 35% | 1,190 awr | £180m - £220m |
| **Channel 4 Y tu allan i Lundain** | 35% | 800 awr | £110m - £140m |
| **Channel 4 Y tu allan i Loegr** | 9% | 210 awr | £20m - £40m |
| **Channel 5** | 10% | 220 awr | £5m – £20m |

Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae ffigurau oriau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r ystod gwariant wedi cael ei chyfrifo gan ddefnyddio data gwariant gwirioneddol o bob blwyddyn berthnasol (hynny yw, mewn termau nominal).

## Addasu'r cwota gwariant ar gynyrchiadau rhanbarthol dros amser

5.26 Ar hyn o bryd, mae'r cwota gwariant ar gynyrchiadau rhanbarthol, mewn blwyddyn benodol, yn seiliedig ar ganran y gwariant cymwys yn y flwyddyn honno. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'n awtomatig newidiadau mewn costau cynhyrchu dros amser – er enghraifft, os bydd gwariant cymwys cyffredinol yn cynyddu mewn blwyddyn benodol, mae'r ganran sefydlog yn sicrhau bod gwariant rhanbarthol absoliwt yn addasu yn unol â hynny. Ond, nid yw cwotâu gwariant absoliwt, a ddaw gyda Deddf y Cyfryngau, yn addasu i newidiadau i gyllidebau cyffredinol yn yr un ffordd.

5.27 O'r herwydd, wrth bennu cwotâu gwariant fel rhif absoliwt, mae angen i ni ystyried a ddylid addasu'r cwotâu gwariant rhanbarthol dros amser, ac os felly, sut. Rydym wedi ystyried tri dull posibl:

a) Peidio ag addasu'r cwotâu gwariant dros amser hynny yw, pennu'r cwotâu mewn termau nominal.
b) Addasu'r cwotâu gwariant bob blwyddyn i adlewyrchu chwyddiant. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu diweddaru'r cwota ar sail chwyddiant a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol, fel y'i mesurir gan Fynegai Pris Defnyddwyr ('CPI') yr economi gyfan. Gyda'r dull hwn, byddai CPI yn gweithredu, i bob pwrpas, fel procsi ar gyfer tueddiadau cost mewn cynyrchiadau teledu.[81]
c) Gwneud cynnydd blynyddol sefydlog o 2% i'r cwotâu gwariant. Eto, byddai hyn yn gweithredu fel procsi ar gyfer tueddiadau cost mewn cynyrchiadau teledu, gyda'r ffigur 2% yn gyson â tharged chwyddiant hirdymor Banc Lloegr.[82]

5.28 Nid yw costau cynhyrchu teledu'n sefydlog, ac rydym ni o'r farn ei bod yn rhesymol tybio bod y costau hyn yn debygol o gynyddu yn y dyfodol. Yn y cyd-destun hwn, rydym ni'n

[81] Mae addasiadau sy'n seiliedig ar CPI yn gymharol gyffredin mewn lleoliadau rheoleiddio.
[82] Chwyddiant a'r targed o 2% | Banc Lloegr.

credu y byddai pennu cwotâu gwariant mewn termau nominal (hynny yw, peidio ag addasu'r ffigurau dros amser) yn debygol o erydu gwerth y cwota. Gallai gwneud hynny gael effaith negyddol ar amrywiaeth ac ansawdd cynyrchiadau rhanbarthol sydd ar gael i gynulleidfaoedd, gan atal amcanion y cwota rhag cael eu cyflawni. Gan mai un o ddibenion cwota cynyrchiadau rhanbarthol yw cefnogi'r economi greadigol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU, mae gwir botensial yn yr amgylchiadau hynny y bydd buddsoddi'n effeithiol yn y canolfannau creadigol hanfodol hyn yn dirywio.

5.29 Wrth asesu'r dewisiadau eraill, rydym ni'n cydnabod na fydd cynnydd blynyddol o 2% yn adlewyrchu newidiadau mewn costau mewn unrhyw flwyddyn benodol. Fodd bynnag, mae'n feincnod a ddefnyddir yn aml ar gyfer disgwyliadau o ran chwyddiant dros y tymor hwy, a chredwn ei fod yn debygol o ddarparu procsi rhesymol ar gyfer newidiadau mewn costau cynhyrchu dros amser. Er y byddai dull seiliedig ar CPI yn olrhain chwyddiant blynyddol yn fwy uniongyrchol, gall chwyddiant o un flwyddyn i'r llall fod yn anwadal, fel rydym ni wedi'i weld yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar ben hynny, oherwydd ei bod yn gallu cymryd nifer o flynyddoedd i gomisiynau symud ymlaen o'r datblygiad cychwynnol i raglenni sy'n cael eu darlledu, mae'n rhaid i strategaethau comisiynu gael eu cynllunio a'u gweithredu dros gyfnodau estynedig. Rydym ni o'r farn y byddai cynnydd blynyddol o 2% yn rhoi rhywfaint o sicrwydd tymor hir i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr, o'i gymharu â'r risg o anwadalrwydd o dan ddull gweithredu sy'n seiliedig ar CPI.

5.30 Mae cynnydd o 2% hefyd yn symlach, gyda llai o faich gweinyddol yn gysylltiedig (er enghraifft, dim angen olrhain chwyddiant ac addasu cwotâu ar y sail honno) a gall fod yn haws deall hyn ar draws y sector ehangach.

5.31 Felly, rydym ni'n cynnig bod y cwotâu gwariant ar gynyrchiadau rhanbarthol yn cael eu codi 2% bob blwyddyn, o ystyried gallu'r dull hwn o weithredu i ddiogelu gwerth y cwota dros amser o'i gymharu â chwota nominal penodol, ac, o'i gymharu ag addasiad sy'n seiliedig ar CPI, ei fod yn fwy syml a sicr, ac yn llai agored i anwadalrwydd.

# 6. Cynyrchiadau annibynnol

## Cyflwyniad

6.1 Mae'r cwotâu cynyrchiadau annibynnol yn ceisio sicrhau bod cynulleidfaoedd yn elwa o raglenni gan ystod ac amrywiaeth o gynhyrchwyr annibynnol drwy sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn comisiynu gan amrywiaeth o gynhyrchwyr ac nid yn unig yn dibynnu ar eu hadnoddau cynhyrchu mewnol eu hunain neu gwmnïau cynhyrchu sy'n eiddo i ddarlledwyr.

6.2 Mae cwotâu cynyrchiadau annibynnol ar wahân sy'n berthnasol i'r

a) Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus;[83] ac
b) I drwyddedeion gwasanaeth rhaglenni teledu digidol ('DTPS').

6.3 Daw cwotâu cynyrchiadau annibynnol y DTPS o Adran 309 o'r Ddeddf, ac fe'u hadlewyrchir yn nhrwyddedau'r DTPS. Nid yw'r newidiadau a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i gwotâu DTPS na thrwyddedau DTPS. Ni fydd y ffordd y gall trwyddedeion DTPS gyflawni eu cwotâu cynyrchiadau annibynnol yn newid.[84]

6.4 Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gwota cynyrchiadau annibynnol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae cwotâu cynyrchiadau annibynnol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig, S4C a'r BBC yn cael eu pennu fel canran o gyfanswm amser y rhaglenni cymwys sy'n cael eu darlledu gan y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus hwnnw. Mae rhaglenni cymwys yn cael eu diffinio gan yr Ysgrifennydd Gwladol,[85] ac ar hyn o bryd maent yn cynnwys, yn gyffredinol, rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf. Mae newyddion, darllediadau gwleidyddol a rhaglenni siopa yn y cartref wedi'u heithrio, yn ogystal â hysbysebion, rhagflasau a deunydd hyrwyddo.[86]

6.5 Mae perfformiad y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig tuag at eu cwotâu cynyrchiadau annibynnol wedi'i nodi yn Atodiad 2.

6.6 Mae Deddf y Cyfryngau yn mynnu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gosod y cwotâu annibynnol ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig, S4C a'r BBC fel isafswm oriau, yn hytrach na fel cyfran o'r "oriau cymwys". Mae hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflawni'r cwota hwn ar eu IPS dynodedig yn ogystal â'u sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus llinol (neu yn achos y BBC, ei wasanaethau darlledu teledu).

6.7 Mae'r newid hwn yn berthnasol i'r BBC, gan fod ganddo hefyd gwota cynyrchiadau annibynnol. Mae'n rhaid i newidiadau adlewyrchu hyn yng Nghytundeb Fframwaith y BBC. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu diweddaru'r Cytundeb Fframwaith maes o law.

---

[83] Adran 277 ac Atodlen 12 i'r Ddeddf.
[84] Er, rydym ni'n nodi o 1 Ionawr 2026 y bydd y diffiniad o "raglenni cymwys" a "chynhyrchiad annibynnol" at ddibenion adran 309 a thrwyddedau DTPS yn cael ei nodi yn Rheoliadau Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 2025 – gweler rheoliadau 5 a 6. Nid yw sylwedd y diffiniad wedi newid o'r hyn sydd wedi'i gynnwys yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991.
[85] Diffinnir hyn yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991.
[86] Gweler Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991 SI 1991/1408 (fel y'i diwygiwyd).

# Newidiadau i'r cwota cynyrchiadau annibynnol

6.8 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi'r lefelau cwota diwygiedig ar gyfer cwotâu cynyrchiadau annibynnol yn Rheoliadau Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) drafft 2025 SI.

6.9 Mae'n rhaid i ni gynnwys amodau yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5 sydd, yn ein barn ni, yn briodol i sicrhau bod o leiaf gymaint o raglenni ag sy'n ofynnol yn y rheoliadau yn cael eu cynnwys yng ngwasanaethau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig. Rhaid i ni hefyd ddiwygio trwyddedau Sianeli 3, 4 a 5 i adlewyrchu'r ffaith y byddant yn gallu defnyddio eu IPS dynodedig i fodloni'r cwota hwn. Mae manylion am y rhain i'w gweld yn Ffigur 4 isod. Rydym ni'n nodi bod y ffigurau hyn, yn union fel y lefelau cwota eraill, yn ofynion sylfaenol. Er cyflawnder, rydym ni hefyd yn nodi'r cwotâu cynyrchiadau annibynnol a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y BBC ac S4C.

**Ffigur 4: Lefelau ar gyfer cwotâu cynyrchiadau annibynnol (fel y nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) drafft 2025 SI)**

| Darparwr Perthnasol | Cwota cynyrchiadau annibynnol |
|---|---|
| **BBC** | 1,700 awr |
| **Sianel 3 (ac eithrio STV)** | 800 awr |
| **Sianel 3 (STV yn unig)** | 750 awr |
| **Channel 4** | 450 awr |
| **Channel 5** | 350 awr |
| **S4C** | 400 awr |

# 7. Adrodd, monitro a chydymffurfio

## Ein dull gweithredu

7.1 Yn yr adran hon, rydym ni'n cyflwyno ein dull gweithredu manwl arfaethedig ar gyfer y data y bydd yn rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ei anfon at Ofcom bob blwyddyn er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cwota.

7.2 Byddwn yn defnyddio ein pwerau ffurfiol i gasglu gwybodaeth gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bob blwyddyn i fonitro cydymffurfiad â'u cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, rhanbarthol ac annibynnol. Y broses "datganiadau blynyddol" yw hon.

7.3 Ar hyn o bryd, rydym ni'n casglu gwybodaeth flynyddol am ddarllediadau llinol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sy'n nodi hyd rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar sianeli perthnasol, ynghyd â gwybodaeth ddisgrifiadol am ffynhonnell pob rhaglen (a lle bo hynny'n berthnasol, y gwariant cymwys ar y rhaglen). Mae hyn yn ein galluogi i benderfynu pa raglenni sy'n cyfrif tuag at gwotâu, gan ganiatáu i ni wneud cyfrifiadau ar gyfer perfformiad darlledwyr. Rydym ni'n ymgysylltu â darlledwyr ar ôl i ni dderbyn eu datganiadau blynyddol, gan gynnwys gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennym am y data. Yn dilyn y broses hon, rydym ni'n nodi perfformiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus tuag at gwotâu yn ein Hadroddiad Blynyddol ar Gydymffurfiaeth Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae'r adroddiad rhyngweithiol hwn hefyd yn cynnwys ein cofrestr o deitlau sy'n gymwys i fod yn gynyrchiadau rhanbarthol.

7.4 Rydym ni hefyd yn defnyddio'r data hwn:

a) fel sail i'n hadolygiadau rheolaidd o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus,[87] ac
b) ar gyfer yr adroddiadau ffeithiol ac ystadegol blynyddol y mae'n ofynnol i ni eu cynhyrchu.[88]

7.5 Rydym ni'n rhagweld y byddwn yn parhau i ofyn am yr wybodaeth rydym ni'n gofyn amdani gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar hyn o bryd, at y dibenion a amlinellir uchod. Mae ehangu cwmpas y rhaglenni a all gyfrif tuag at gyflawni'r cwotâu (hynny yw, cynnwys sy'n cael ei ddarparu ar IPS dynodedig) yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen i ni gasglu gwybodaeth ychwanegol gan ddarlledwyr er mwyn asesu a ydynt yn cydymffurfio â chwotâu.

7.6 Yn ddiweddar, fe wnaethom hefyd gyhoeddi canllawiau drafft diwygiedig i helpu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i baratoi eu Datganiadau Polisi Rhaglenni blynyddol a fydd yn nodi sut maent yn bwriadu cyflawni eu rhwymedigaethau rheoleiddio ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Yn eu Datganiadau Polisi Rhaglenni blynyddol, bydd gofyn i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gynnwys gwybodaeth am sut byddant yn cyflawni eu cwotâu, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu trafod yn y ddogfen hon.

---

[87] Gweler adran 264 o'r Ddeddf.
[88] O dan adran 358 o'r Ddeddf.

7.7 Yn ogystal â’r gofynion adrodd presennol, bydd gofyn i ddarlledwyr roi gwybodaeth am y rhaglenni hynny sydd ar gael ar eu IPS dynodedig y maent yn dymuno eu cynnwys tuag at eu cwotâu, a rhoi gwybodaeth ddisgrifiadol am raglenni gyda hyn, mewn ffordd debyg i’r hyn a ddarperir ar gyfer rhaglenni llinol. Wrth i fwy o gynnwys gael ei ddarparu ar-lein yn gyntaf neu ar-lein yn unig ac wrth i systemau adrodd ar-lein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddatblygu, efallai y byddwn yn ceisio casglu data mwy cynhwysfawr ar gatalogau ar-lein gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn yn parhau i weithio gyda darlledwyr wrth i ni ddatblygu ein gofynion adrodd wedi’i diweddaru, a chyn gofyn am wybodaeth wedi’i diweddaru yn ôl y gofyn.

7.8 Rydym ni’n credu bod ein dull o fonitro ac adrodd yn gymesur o ran gweithredu’r gofynion newydd, gan sicrhau ein bod yn casglu’r wybodaeth angenrheidiol sydd ei hangen arnom i gyflawni ein rôl monitro a chydymffurfio. Rydym ni'n ymwybodol y gallai diwygio ein gofynion gwybodaeth roi rhywfaint o faich ychwanegol ar randdeiliaid, a byddwn yn ceisio lleihau hynny yn ein dull gweithredu. Nid ydym yn disgwyl i’r wybodaeth a’r gofynion ychwanegol hyn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol ar gynulleidfaoedd na chynhyrchwyr.

# 8. Y camau nesaf

8.1 Rydym ni'n croesawu unrhyw sylwadau sydd gan randdeiliaid am ein cynigion ac yn gobeithio cael ymgysylltiad pellach gyda phartïon â diddordeb cyn gwneud ein penderfyniadau.

8.2 Ar ôl i ni gwblhau ein dull gweithredu ar ôl yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn rhoi'r newidiadau a amlinellir yn Adrannau 4 a 5 ar waith drwy amrywio trwyddedau Sianeli 3, 4 a 5, gan gynnwys gwneud y penderfyniadau gofynnol mewn perthynas â thrin ailddarllediadau, gan ddilyn y broses a nodir yn y trwyddedau hynny.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Cwestiwn 1: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein cynigion a'r Canllawiau drafft arfaethedig ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol a diweddariadau i'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau Rhanbarthol?

Cwestiwn 2: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch ein hasesiadau effaith sy'n sail i'n cynigion, fel sydd wedi'u nodi yn Atodiad 3?

## Amserlen gweithredu

8.3 Rydym ni'n nodi camau nesaf ac amseroedd gweithredu dangosol:

a) 10 Gorffennaf 2025: Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'n hymgynghoriad a chanllawiau drafft ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol a chynyrchiadau rhanbarthol.
b) tua Hydref 2025: Ofcom yn cyhoeddi datganiad a chanllawiau terfynol, ar ôl dadansoddi ymatebion ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
c) Ddiwedd 2025: Ofcom yn dechrau'r broses o amrywio'r drwydded a'r broses o bennu/cyfarwyddo S4C i ddiwygio'r amodau cwota.
d) Erbyn dechrau 2026: Mae amodau diwygiedig y drwydded, penderfyniad a chyfarwyddyd S4C, a'r Canllawiau Cynyrchiadau Gwreiddiol a Chynyrchiadau Rhanbarthol yn dod i rym.[89]

[89] Mae hyn yn dibynnu ar y llywodraeth yn dod â darpariaethau perthnasol Deddf y Cyfryngau i rym yn llawn.

# A1. Y fframwaith cyfreithiol

A1.1 Yn yr atodiad hwn, rydym ni'n crynhoi'r darpariaethau statudol sy'n berthnasol i'n cynigion yn yr ymgynghoriad hwn.

A1.2 Yn gyntaf, rydym ni'n amlinellu dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan adran 3 o'r Ddeddf a'r dyletswyddau eraill y mae'n rhaid i ni eu bodloni wrth gyflawni ein swyddogaethau. Yna, byddwn yn disgrifio'r fframwaith statudol sy'n berthnasol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n berthnasol i'r cwotâu sy'n cael eu hystyried.

## Dyletswyddau cyffredinol Ofcom

A1.3 Mae gan Ofcom ddyletswyddau cyffredinol, o ran cyflawni ei swyddogaethau, i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.[90]

A1.4 Wrth gyflawni ein swyddogaethau, mae'n rhaid i ni wireddu amcanion penodol, gan gynnwys:

- bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac a fydd yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau;
- cynnal lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol; ac
- yn achos pob gwasanaeth teledu a radio, bod safonau ar waith sy'n darparu amddiffyniad digonol i aelodau'r cyhoedd rhag bod deunydd sarhaus a niweidiol yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau o'r fath.

A1.5 Wrth sicrhau'r amcanion hyn, mae adran 3(4) o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn ystyried nifer o faterion, gan gynnwys:

a) pa mor ddymunol yw hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU;

b) pa mor ddymunol yw annog buddsoddi ar arloesi mewn marchnadoedd perthnasol;

c) anghenion pobl anabl, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel; a'r

d) y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y Deyrnas Unedig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.[91]

A1.6 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol, mae'n rhaid i Ofcom ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n gyfystyr â'r ymarfer rheoleiddio gorau.[92]

---

[90] Adran 3(1) o'r Ddeddf.
[91] Adran 3(4)(a), (b), (i) a (l) o'r Ddeddf.
[92] Adran 3(3) o'r Ddeddf.

# Dyletswydd twf economaidd

A1.7 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried y dymuniad i hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau:

a) bod camau rheoleiddiol yn cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen; a
b) bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur.[93]

A1.8 Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon yn cydnabod bod ysgogwyr twf economaidd yn cynnwys arloesedd a chystadleuaeth.

# Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

A1.9 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A1.10 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i ystyried y dymuniad i hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym ni'n cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

# Dyletswydd y Gymraeg

A1.11 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r safonau a roddwyd ar Ofcom wedi cael eu rhestru yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.

A1.12 Mae'r Safonau Llunio Polisi Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom asesu (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli.

A1.13 Mae Ofcom wedi ystyried y ddyletswydd hon yn dilyn y newidiadau a gyflwynwyd i gwotâu gan Ddeddf y Cyfryngau ac mae ein hasesiad mewn perthynas â'r Gymraeg i'w weld isod (Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg).

[93] Adran 108(2)(b) Deddf Dadreoleiddio 2015.

# Newidiadau i'r fframwaith a wnaed gan Ddeddf y Cyfryngau

## Cyflwyniad

A1.14 Mae Deddf y Cyfryngau yn newid y ffordd mae cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, cynyrchiadau rhanbarthol a chynyrchiadau annibynnol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu mynegi, ac y gellir eu cyflawni.[94] Gall rhaglenni ar ystod ehangach o wasanaethau gyfrif tuag at gwotâu: bydd y cwotâu'n berthnasol i'r un darlledwyr ond gall rhaglen sydd wedi'i chynnwys ar y "gwasanaeth clyweledol cymwys" – naill ai prif sianel y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus neu wasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu'n rhan o hynny – gyfrif tuag at gyflawni'r cwotâu hyn.

A1.15 Yng ngweddill yr adran hon rydym ni'n crynhoi beth ydy'r newidiadau a'r gofynion ar Ofcom, mewn perthynas â'r cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol, cynyrchiadau rhanbarthol a chynyrchiadau annibynnol. Yn olaf, fe wnaethom nodi rhywfaint o wybodaeth am y fframwaith sydd ar waith ar gyfer rhai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

### Cynyrchiadau gwreiddiol

A1.16 Mae Adran 278 ac Atodlen 12 Rhan 2, paragraff 8 y Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn gosod cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5, a thrwy benderfyniad, ar S4C. Bob blwyddyn, mae'r cwotâu hyn yn mynnu bod y darlledwyr yn darlledu nifer sylfaenol o gynyrchiadau gwreiddiol ar eu prif sianeli llinol. Ar hyn o bryd, mae'r cwotâu hyn yn cael eu gosod yn y trwyddedau a thrwy gytundeb ag S4C, fel cyfrannau o gyfanswm yr amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer darlledu "rhaglenni cymwys" ar y sianel. Mae cwota ychwanegol yn cael ei osod sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynyrchiadau gwreiddiol gael eu darlledu yn ystod oriau gwylio brig (adran 278(2)(b), Atodlen 12 Rhan 2, para 8).

A1.17 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn diffinio beth yw "cynhyrchiad gwreiddiol" yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004,[95] er y gall Ofcom wedyn eithrio rhaglenni â disgrifiad penodol rhag cyfrif tuag at y cwota (adran 278(3)). Yn fras, mae cynhyrchiad gwreiddiol yn rhaglen sy'n cael ei chomisiynu gan, neu ar gyfer, y sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig (neu S4C) gyda'r bwriad iddi gael ei dangos am y tro cyntaf ar y sianel honno.[96]

A1.18 Mae Deddf y Cyfryngau wedi diwygio darpariaethau perthnasol y Ddeddf, fel bod yn rhaid i Ofcom gynnwys amodau cwota yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5 (a thrwy benderfyniad, (naill ai drwy gytundeb neu gyfarwyddyd, ar S4C)) sydd, yn ein barn ni, yn briodol i sicrhau bod y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu cynnwys clyweledol cymwys sy'n cynnwys "amrywiaeth o gynyrchiadau gwreiddiol". Dylid mynegi'r cwotâu hyn mewn

---

[94] Cafodd yr adrannau perthnasol o Ddeddf y Cyfryngau eu cychwyn at ddibenion penodol gan Reoliadau Deddf y Cyfryngau 2024 (Cychwyn Rhif 1) 2024 (SI 2024/858).
[95] SI 2004/1652.
[96] Adran 278(6) o'r Ddeddf. Diffiniad o ba raglenni sy'n gynyrchiadau gwreiddiol at ddibenion a278 (C3/4/5). Y diffiniad cyfredol yn Erthygl 3 o Orchymyn 2004: ... rhaglenni sydd naill ai— (a) yn cael eu comisiynu gan neu ar gyfer sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig gyda'r bwriad o'u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y Deyrnas Unedig— (i) ar y sianel honno, neu (ii) yn achos gwasanaeth Sianel 3, ar y gwasanaeth hwnnw neu ar wasanaeth Sianel 3 arall; a (b) yn rhaglenni Ewropeaidd. Noder, nid yw "rhaglen" yn cynnwys hysbysebion (a278(10)).

termau absoliwt (hynny yw, wedi'u pennu fel isafswm absoliwt o oriau i'w darparu) yn hytrach nag fel cyfran o'r amser darlledu ar y brif sianel.

A1.19 Mae cynyrchiadau gwreiddiol sydd "ar gael" ar brif sianel linol y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (hynny yw, a ddarlledir ar wasanaeth llinol Sianel 3, Channel 4, Channel 5 neu S4C), yn ogystal â gwasanaethau rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu sy'n rhan o hynny[97], yn gallu cyfrif tuag at gyflawni'r cwota. Pan fydd cynnwys wedi cael ei gynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw, rhaid iddo fod ar y gwasanaeth hwnnw, yn rhad ac am ddim, am o leiaf 30 diwrnod er mwyn gallu cyfrannu at gyflawni'r cwota (mae digwyddiadau chwaraeon a newyddion wedi'u heithrio o'r gofyniad 30 diwrnod).[98] Mae Rheoliadau Darlledu (Gwneud Rhaglenni Rhanbarthol) a Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol)(Diwygio) 2025 ("Rheoliadau Cynyrchiadau Rhanbarthol a Chynyrchiadau Gwreiddiol Drafft 2025")[99] a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 6 Mai 2025 yn diwygio Gorchymyn 2004 i adlewyrchu'r sefyllfa hon.

A1.20 Mae'r newidiadau a wnaed gan y Rheoliadau drafft hefyd yn mynnu bod Ofcom yn penderfynu a all ailddarllediadau gyfrif tuag at gyflawni'r cwota, ac yn cyhoeddi Canllawiau y mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hystyried, gan eithrio rhaglenni â disgrifiad penodol rhag cael eu cynnwys yn y cwota.

## Cynyrchiadau rhanbarthol

A1.21 Mae adran 264 o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod y cynnwys clyweledol sy'n cael ei ddarparu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (gyda'i gilydd) "cyn belled â bod y cynnwys clyweledol yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys ystod briodol o raglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i ardal yr M25 sy'n briodol o ran hyd gyda'i gilydd."[100] Fel y nodir uchod, mae hefyd yn darparu ar gyfer yr amcan y dylent gynnwys yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel nifer ddigonol o raglenni sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon gwahanol gymunedau a buddiannau a thraddodiadau diwylliannol yn y DU, ac yn lleol mewn gwahanol rannau o'r DU.[101] Rydym ni o'r farn bod cynhyrchu rhaglenni ledled y DU yn cyfrannu at gyflawni'r amcan hwn.

A1.22 Mae Adran 286 (mewn perthynas â Sianeli 3 a 5) a 288 (mewn perthynas â Channel 4) yn mynnu bod Ofcom yn gosod cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5. Mae cynhyrchiad rhanbarthol yn un sy'n cael ei wneud yn y DU, y tu allan i ardal yr M25. Mae'n rhaid i Ofcom bennu'r nifer sylfaenol o oriau a'r gwariant sylfaenol y mae'n rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig eu cynnwys ar eu sianel linol, yn flynyddol (er mwyn sicrhau nad yw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynhyrchu rhaglenni drud yn anghymesur yn Llundain a rhaglenni rhatach y tu allan i Lundain). Ar hyn o bryd, mae'r cwotâu hyn yn cael eu gosod yn y trwyddedau fel cyfrannau o gyfanswm rhaglenni'r sianel (yn ôl amser a gwariant) o ran rhaglenni sy'n cael eu gwneud

---

[97] Mae "IPS dynodedig" neu "Gwasanaeth Rhaglenni Rhyngrwyd dynodedig", yn ap teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi cael ei "ddynodi" gan Ofcom at ddibenion y Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau). Rydym wedi ymgynghori ar wahân ar weithredu'r rhan hon o Ddeddf y Cyfryngau: Ymgynghoriad ar ddynodi Gwasanaethau Rhaglenni Rhyngrwyd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus.

[98] Gweler adran 278B o'r Ddeddf, sy'n esbonio'r amgylchiadau pan fo person yn sicrhau bod cynnwys clyweledol cymwys "ar gael".

[99] Rheoliadau Darlledu (Gwneud Rhaglenni Rhanbarthol) a Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) (Diwygio) 2025.

[100] Adran 264(5)(d)(iii) o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd).

[101] Adran 264(6)(i) o'r Ddeddf.

yn y DU. Mae cwota cynyrchiadau rhanbarthol Gwnaed y Tu Allan i Loegr ychwanegol wedi'i gynnwys yn nhrwydded Channel 4.[102] Mae'r cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn berthnasol i raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y DU yn unig, ac nid ydynt yn berthnasol i raglenni newyddion. Hefyd, nid yw'r cwotâu yn berthnasol i gynnwys a gaiff ei hunanhyrwyddo na rhaglenni a gaiff eu prynu.

A1.23 Mae Deddf y Cyfryngau wedi diwygio darpariaethau perthnasol y Ddeddf, fel bod yn rhaid i Ofcom gynnwys amodau cwota yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5 sydd, yn ein barn ni, yn briodol i sicrhau bod y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn sicrhau bod nifer sylfaenol o oriau o gynyrchiadau rhanbarthol "ar gael" bob blwyddyn. Dylid mynegi'r cwotâu hyn mewn termau absoliwt (hynny yw, wedi'u pennu fel nifer absoliwt o oriau a swm y gwariant) yn hytrach na fel cyfran.[103] Mae cynyrchiadau rhanbarthol sydd "ar gael" ar brif sianel linol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (hynny yw, a ddarlledir ar wasanaethau Sianel 3, Channel 4, Sianel 5), yn ogystal ag ar wasanaethau rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu'n rhan o hynny, yn gallu cyfrif tuag at gyflawni'r cwota.[104] Pan fydd cynnwys wedi cael ei gynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw, rhaid iddo fod ar y gwasanaeth hwnnw, yn rhad ac am ddim, am gyfnod o 30 diwrnod o leiaf er mwyn gallu cyfrannu at gyflawni'r cwota (mae digwyddiadau chwaraeon wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn).

A1.24 Mae Rheoliadau Cynyrchiadau Rhanbarthol a Chynyrchiadau Gwreiddiol drafft 2025 n mynnu bod Ofcom yn penderfynu a all ailddarllediadau gyfrif tuag at gyflawni'r cwota cynyrchiadau rhanbarthol.[105]

A1.25 Ar ben hynny, mae'r Ddeddf yn mynnu bod y cynyrchiadau rhanbarthol yn cynrychioli'r hyn sy'n ymddangos i Ofcom fel ystod addas o raglenni, o amrywiaeth o ganolfannau cynhyrchu gwahanol. Nid yw'r gofyniad hwn wedi newid o dan Ddeddf y Cyfryngau. Mae canllawiau cynyrchiadau rhanbarthol[106] Ofcom (a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2019) yn nodi, er mwyn i raglen gyfrif tuag at y cwota, rhaid i gynyrchiadau perthnasol fodloni dau o'r tri maen prawf canlynol:

a) Canolfan sylweddol y tu allan i'r M25;
b) O leiaf 70% o gyfanswm y gwariant cynhyrchu y tu allan i'r M25; a
c) Man cyflogaeth arferol o leiaf 50% o'r talentau cynhyrchu, yn ôl y gost, y tu allan i'r M25.

## Cynyrchiadau annibynnol

A1.26 Mae Adran 277 o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau yn nhrwyddedau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig y mae Ofcom yn credu sy'n briodol ar gyfer sicrhau bod dim llai na 25 y cant o gyfanswm yr amser a ddyrennir i ddarlledu rhaglenni cymwys sydd wedi'u cynnwys yn y sianel yn cael ei neilltuo i ddarlledu ystod ac amrywiaeth

[102] Ofcom, 2024. Datganiad ar adnewyddu Trwydded Channel 4.
[103] Gweler adrannau 286 a 288 o'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau.
[104] Gweler adran 278B o'r Ddeddf, sy'n esbonio'r amgylchiadau pan fo person yn sicrhau bod cynnwys clyweledol cymwys "ar gael".
[105] Gweler Rheoliad 2 Rheoliadau Cynyrchiadau Rhanbarthol a Chynyrchiadau Gwreiddiol drafft 2025.
[106] Bydd Ofcom yn diweddaru'r canllawiau hyn i ymgorffori newidiadau i Ddeddf y Cyfryngau fel yr esbonnir yn Adran 5.

o gynyrchiadau annibynnol.[107] Rhoddir dyletswydd debyg ar y BBC ac S4C drwy Atodlen 12 Rhannau 1 paragraff 1 a Rhan 2 paragraff 7 y Ddeddf yn y drefn honno.

A1.27 Ar hyn o bryd, mae 'cynyrchiadau annibynnol' yn golygu unrhyw raglen gymwys[108] a wneir gan gynhyrchydd annibynnol. Nid yw cynhyrchydd annibynnol ynghlwm wrth ddarlledwr yn y DU drwy gydberchnogaeth arwyddocaol. Cynhyrchydd: (i) nid yw wedi'i gyflogi gan ddarlledwr; (ii) nid oes ganddo gyfranddaliad sy'n fwy na 25% mewn darlledwr yn y DU; neu (iii) nid oes gan yr un darlledwr yn y DU gyfranddaliad sy'n fwy na 25% neu nad oes gan unrhyw ddau neu ragor o ddarlledwyr yn y DU gyfranddaliad o fwy na 50% gyda'i gilydd. Er mwyn cyfrif tuag at y cwotâu, rhaid comisiynu cynyrchiadau hefyd yn unol â chod comisiynu'r darparwr.

A1.28 Effaith Deddf y Cyfryngau ar gynyrchiadau annibynnol yw ei bod yn symud oddi wrth system cwota cyfrannol i fynnu bod isafswm absoliwt (nifer oriau) o gynyrchiadau annibynnol yn cael ei gynnwys ar bob un o'r sianeli gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig, S4C a'r BBC.

A1.29 Roedd y Rheoliadau Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) drafft 2025 a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 6 Mai 2025 yn gosod y nifer sylfaenol o oriau o gynyrchiadau annibynnol y mae'n rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu darparu. Bydd cynyrchiadau annibynnol sydd "ar gael" ar brif sianeli llinol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal ag ar wasanaethau rhaglenni ar-alw sy'n IPS dynodedig, neu'n rhan o hynny, yn gallu cyfrif tuag at gyflawni'r cwota. Pan fydd cynnwys wedi cael ei gynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw, rhaid iddo fod ar y gwasanaeth hwnnw, yn rhad ac am ddim, am gyfnod o 30 diwrnod o leiaf er mwyn gallu cyfrannu at gyflawni'r cwota (nid yw'r gofyniad 30 diwrnod yn berthnasol i ddarlledu digwyddiadau chwaraeon).[109] Mae'n rhaid i Ofcom gynnwys amod yn nhrwyddedau Sianeli 3, 4 a 5 sy'n sicrhau bod cynnwys clyweledol cymwys ar gael sy'n cynnwys ystod ac amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol a gomisiynir yn unol â chod comisiynu'r darparwr, ac i'r cynyrchiadau hynny gyfateb o leiaf i nifer yr oriau a bennir drwy orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol.[110]

## Y fframwaith sydd ar waith ar gyfer y BBC ac S4C

### Cytundeb fframwaith y BBC a'r Drwydded Weithredu

A1.30 Y cwota cynyrchiadau annibynnol yw'r unig gwota ar gyfer y BBC y mae'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf y Cyfryngau yn effeithio ar ei lefel.[111] Mae lefelau ei gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol a chynyrchiadau rhanbarthol yn Nhrwydded Weithredu'r BBC,[112] yn unol â'r Cytundeb Fframwaith a'r Siarter Frenhinol. Fel y nodir uchod, mae Deddf y Cyfryngau yn diwygio Atodlen 12 i'r Ddeddf i fynnu bod y BBC yn sicrhau ei fod, bob blwyddyn, yn darparu cynnwys clywedol sy'n cynnwys ystod ac amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol a gomisiynir yn unol ag unrhyw god perthnasol a luniwyd o dan Siarter a Chytundeb y BBC, ac sydd o leiaf y swm a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r nifer yma wedi'i nodi yn Rheoliadau Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) drafft 2025 a gyhoeddwyd ar 6 Mai 2025. Gellir bodloni cwota cynyrchiadau annibynnol y BBC drwy

[107] Adran 277 o'r Ddeddf.
[108] Diffinnir hyn yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991 SI 1991/1408.
[109] Adran 278B(2) o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau) ac adran 264(8B).
[110] Adran 277 o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau).
[111] Atodlen 12, paragraff 1 y Ddeddf.
[112] Ofcom, 2024. Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.

ddarparu rhaglenni ar wasanaethau darlledu teledu sy'n cael eu darparu gan y BBC, yn ogystal ag ar wasanaeth rhaglenni ar alwad sy'n, neu sy'n rhan o IPS dynodedig.

## Fframwaith ar gyfer S4C

A1.31 Mae Deddf y Cyfryngau yn gwneud newidiadau amrywiol i fframwaith cyfreithiol S4C. Mae'r darpariaethau presennol i S4C barhau i ddarparu S4C ac S4C Digidol (sianeli darlledu teledu)[113] a gwasanaethau/gweithgareddau[114] eraill bellach yn cael eu disodli gan ddarpariaethau newydd[115] sy'n nodi dibenion, cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a phwerau eraill diwygiedig S4C. Er enghraifft, mae Adran 204A o'r Ddeddf yn nodi'n glir y gall S4C gyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus drwy raglenni a chynnwys digidol ar-lein sy'n cael ei ddosbarthu drwy'r teledu a'r rhyngrwyd.

A1.32 Ceir darpariaethau cwota hefyd ar gyfer S4C.[116] Mae'r newidiadau a wneir i rwymedigaethau cwota S4C yn symud oddi wrth y system cwota cyfrannol i isafswm absoliwt (nifer yr oriau) o gynyrchiadau annibynnol a gwreiddiol, ac maent wedi'u nodi'n fanwl uchod lle bo hynny'n berthnasol.

[113] Adran 204 o'r Ddeddf.
[114] Adrannau 205 a 206 o'r Ddeddf.
[115] Adrannau 204A, 204B a 204C o'r Ddeddf.
[116] Nodir y rhain ym mharagraffau 7 i 9 o Ran 2, Atodlen 12 i'r Ddeddf.

# A2. Perfformiad tuag at y cwotâu

A2.1 Yn yr atodiad hwn rydym ni'n rhoi crynodeb o sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C wedi perfformio tuag at eu cwotâu cynyrchiadau yn ystod 2018-23.

## Cynyrchiadau gwreiddiol

A2.2 Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C i gyd wedi rhagori'n gyson ar eu cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol blynyddol (Ffigur 5). Maent hefyd wedi rhagori'n gyfforddus ar y gofyniad i ddarlledu rhaglenni gwreiddiol yn ystod oriau gwylio brig (Ffigur 6).

**Ffigur 5: Perfformiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C tuag at gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol (cyfran o gyfanswm yr oriau cymwys, %), 2018-2023**

| Trwyddedai | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Cwota | Cyfartaledd perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ITV** | 91 | 92 | 92 | 92 | 91 | 89 | **65** | **91** |
| **STV** | 78 | 80 | 79 | 93 | 93 | 90 | **65** | **85** |
| **Channel 4** | 63 | 62 | 60 | 64 | 63 | 64 | **56** | **63** |
| **Channel 5** | 60 | 59 | 56 | 60 | 65 | 60 | **50** | **60** |
| **S4C** | 85 | 81 | 85 | 86 | 92 | 92 | **80** | **87** |

Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae perfformiad ITV yn cynrychioli canlyniadau ar draws trwyddedau Sianel 3 yn Lloegr. Mae cwota cynyrchiadau gwreiddiol Channel 4 yn 45% o dan ei drwydded newydd

**Ffigur 6: Perfformiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C tuag at gwotâu cynyrchiadau gwreiddiol oriau brig (cyfran o gyfanswm yr oriau cymwys, %), 2018-2023**

| Trwyddedai | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Cwota | Cyfartaledd perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ITV** | 90 | 94 | 90 | 95 | 95 | 95 | **85** | **93** |
| **STV** | 96 | 94 | 91 | 96 | 95 | 96 | **85** | **95** |
| **Channel 4** | 81 | 84 | 78 | 81 | 82 | 79 | **70** | **81** |
| **Channel 5** | 80 | 80 | 75 | 81 | 83 | 89 | **45** | **81** |
| **S4C** | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | **90** | **100** |

Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae perfformiad ITV yn cynrychioli canlyniadau ar draws trwyddedau Sianel 3 yn Lloegr.

## Cynyrchiadau rhanbarthol

A2.3 Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig wedi gorberfformio'n gyson tuag at eu rhwymedigaethau cwota ar gyfer cynyrchiadau cymwys sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain, gan ddyrannu mwy o'u cynyrchiadau ar draws y DU (Ffigur 7 a 8).

A2.4 Ar gyfer ITV a Channel 5, roedd cyfran y gwariant y tu allan i Lundain yn uwch na chyfran yr oriau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, ar gyfer Channel 4 roedd cyfran yr oriau yn fwy na chyfran y gwariant.

**Ffigur 7: Perfformiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig tuag at gwotâu cynyrchiadau rhanbarthol (cyfran o gyfanswm y gwariant cymwys, %), 2018-2023**

| Trwyddedai | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Cwota | Cyfartaledd perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Channel 3** | 38 | 47 | 47 | 60 | 51 | 55 | **35** | **50** |
| **Channel 4** | 45 | 45 | 47 | 55 | 53 | 51 | **35** | **49** |
| **Channel 5** | 23 | 35 | 28 | 37 | 38 | 41 | **10** | **34** |

Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae perfformiad ITV yn cynrychioli canlyniadau ar draws holl drwyddedau Sianel 3. Mae Channel 4 hefyd yn rhwym wrth gwota "Gwnaed y tu allan i Loegr".

**Ffigur 8: Perfformiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig tuag at gwotâu cynyrchiadau rhanbarthol (cyfran o gyfanswm yr oriau cymwys, %), 2018-2023**

| Trwyddedai | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Cwota | Cyfartaledd perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Channel 3** | 48 | 48 | 46 | 47 | 47 | 47 | **35** | **47** |
| **Channel 4** | 59 | 54 | 57 | 66 | 66 | 67 | **35** | **62** |
| **Channel 5** | 19 | 21 | 16 | 22 | 19 | 23 | **10** | **20** |

Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae perfformiad ITV yn cynrychioli canlyniadau ar draws trwyddedau Sianel 3. Mae Channel 4 hefyd yn rhwym wrth gwota "Gwnaed y tu allan i Loegr".

## Cynyrchiadau annibynnol

A2.5 Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd wedi cyflawni tuag at eu cwotâu cynyrchiadau annibynnol, gyda gorberfformiad penodol gan Channel 4 ac S4C (Ffigur 9).

**Ffigur 9: Perfformiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C tuag at gwotâu cynyrchiadau annibynnol (cyfran o'r oriau cymwys, %), 2018-2023**

| | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Cwota | Cyfartaledd perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ITV** | 35 | 37 | 40 | 34 | 35 | 33 | **25** | **31** |
| **STV** | 34 | 43 | 53 | 42 | 33 | 18 | **25** | **37** |
| **Channel 4** | 49 | 45 | 50 | 53 | 55 | 54 | **25** | **44** |
| **Channel 5** | 37 | 44 | 39 | 40 | 38 | 29 | **25** | **32** |
| **S4C** | 95 | 91 | 94 | 95 | 73 | 73 | **25** | **87** |

Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae perfformiad ITV yn cynrychioli canlyniadau ar draws trwyddedau Sianel 3 yn Lloegr. Nid oedd STV wedi cyrraedd ei gwota cynyrchiadau annibynnol yn 2023 oherwydd ei fod wedi optio allan o *Unwind with ITV1*. Datryswyd y mater hwn ar 20 Ionawr 2025.

# A3. Asesu effaith ein cynigion

## Asesu'r effaith

A3.1 Mae Adran 7 o'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae asesiadau effaith yn ein helpu i ddeall ein penderfyniadau polisi a pham rydym ni'n credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.

A3.2 Fel y nodir uchod, mae'n rhaid i ni ddiweddaru'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol (oriau) a'r cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol (oriau a gwariant) fel rhan o'n gwaith i weithredu Deddf y Cyfryngau. Mae'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf y Cyfryngau yn golygu y gall y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C ddefnyddio eu gwasanaethau ar-alw tuag at gyflawni eu cwotâu, am y tro cyntaf, os ydynt yn IPS dynodedig, neu'n rhan o hynny. O ganlyniad, mae angen i'r ffordd y mae cwotâu wedi cael eu pennu hyd yma – fel cyfran o allbwn sianel linol – newid hefyd. Felly, mae angen i ni wneud newidiadau o ran sut rydym ni'n pennu cwotâu, er mwyn gallu eu mynegi mewn termau absoliwt o ran oriau a gwariant. Ein nod yw gwneud hyn mewn ffordd sy'n trosi'r gofynion presennol yn fformat sy'n sicrhau bod y lefelau sylfaenol a nodir yn y gofynion cwota presennol yn cael eu cynnal yn fras, ac felly'n parhau i gyflawni amcanion y cwotâu.

A3.3 Rydym ni wedi ystyried effeithiau posibl ein newidiadau arfaethedig i'r cwotâu i weithredu Deddf y Cyfryngau yn benodol ar gynulleidfaoedd, ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C ac ar y sector cynhyrchu. Mae ein safbwyntiau ynghylch yr effaith gyffredinol debygol i'w gweld isod, yn ogystal â'n barn ynghylch effaith newidiadau penodol.

A3.4 Rydym ni wedi ystyried yr effeithiau hyn o'i gymharu â'r sefyllfa ar hyn o bryd, hynny yw, y senario lle mae'r rheolau cwota cyfrannol llinol presennol yn cael eu cynnal. Rydym ni o'r farn mai dyma'r ffordd fwyaf priodol i asesu effeithiau'r newidiadau ar y gwahanol grwpiau yn glir ac yn dryloyw. Er bod amrywiaeth o ddewisiadau posibl ar gyfer y gwahanol faterion gweithredu sy'n cael eu hystyried ar gyfer pob cwota, nid oes llinell sylfaen arall amlwg. Felly, mae rhai o'r effeithiau a ddisgrifir isod yn rhan annatod o'r newidiadau cyfreithiol sy'n ofynnol o dan Ddeddf y Cyfryngau, ond rydym ni wedi ceisio gweithredu'r newid angenrheidiol mewn ffordd sydd, yn gyffredinol, yn gwella unrhyw effeithiau cadarnhaol ac yn lleihau unrhyw effeithiau negyddol.[117]

## Asesiad o effeithiau cyffredinol

A3.5 Ar sail y drafodaeth ar effeithiau ein cynigion yn Adrannau 4 a 5, rydym ni'n disgwyl y bydd effeithiau'r newidiadau arfaethedig ar gyfer gweithredu yn gadarnhaol yn gyffredinol. Ar y

[117] Roeddem wedi adolygu Asesiad o Effaith Bil Cyfryngau'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a oedd yn cynnwys asesiad o effeithiau'r newidiadau gofynnol i'r cwotâu cynhyrchu. Rydym ni o'r farn bod yr effeithiau rydym ni wedi'u trafod yma, sy'n deillio o'r newidiadau gofynnol hyn, yn cyd-fynd â'r effeithiau a drafodwyd yn asesiad effaith yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

cyfan, rydym ni o’r farn y bydd y dull rydym ni wedi’i fabwysiadu i weithredu’r gallu i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C (lle bo hynny’n briodol) gyfrif cynnwys sydd ar gael ar eu IPS dynodedig tuag at gwotâu, yn arwain at effeithiau cadarnhaol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynulleidfaoedd. Rydym ni’n cydnabod bod y newidiadau o rifau cymesur i rifau absoliwt yn newid o’r arfer presennol, ond mae hyn yn un o ofynion y ddeddfwriaeth nad ydym yn credu fydd yn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol ar gynulleidfaoedd. Rydym ni’n nodi rhywfaint o bosibilrwydd y bydd rhywfaint mwy o faich rheoleiddio ar ddarlledwyr oherwydd y data ychwanegol y bydd angen iddynt ei gasglu ac adrodd arno, sy’n angenrheidiol er mwyn gallu monitro ac adrodd yn gadarn ar y cwotâu sydd wedi’u diweddaru. Fodd bynnag, rydym ni o’r farn bod yr effeithiau cadarnhaol sy’n deillio o gyfrif cynnwys IPS dynodedig tuag at y cwota er mwyn cael mwy o hyblygrwydd yn drech nag unrhyw elfennau negyddol, fel bod effeithiau cyffredinol y newidiadau’n gadarnhaol. Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effeithiau sylweddol ar y sector cynhyrchu yn deillio o unrhyw newidiadau rydym ni wedi’u cynnig.

A3.6 Rydym ni o’r farn bod y newidiadau rydym ni wedi’u cynnig i'w rhoi ar waith yn gymesur ac nad ydynt yn mynd dim pellach na’r hyn sy’n angenrheidiol i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio i weithredu Deddf y Cyfryngau a gwneud hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl. Yn seiliedig ar ein trafodaethau yn Adrannau 4 a 5 uchod, rydym ni wedi crynhoi isod ein barn am effeithiau tebygol cynigion penodol ar gyfer pob cwota.

## Asesiad o effeithiau newidiadau arfaethedig penodol

A3.7 Mae’r adran hon yn rhoi asesiad o effeithiau newidiadau arfaethedig penodol i bob cwota er mwyn gweithredu Deddf y Cyfryngau. Rydym ni wedi grwpio effeithiau rhai cynigion polisi ar gyfer pob cwota gyda’i gilydd, lle mae’r un ystyriaethau polisi yn berthnasol a lle mae’r effeithiau disgwyliedig yr un fath.

**Cyfrif cynnwys o IPS dynodedig tuag at y cwotâu (gwreiddiol a rhanbarthol)**

A3.8 Wrth weithredu’r newidiadau i Ddeddf y Cyfryngau sy’n caniatáu i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C ddefnyddio cynnwys IPS dynodedig i fodloni eu cwotâu, rydym ni wedi cynnig:

a) dim ond pan ddefnyddir gwasanaethau ar-lein unwaith y caiff cynnwys a ddarparwyd gyntaf ar IPS dynodedig gyfrif tuag at y cwota cynyrchiadau gwreiddiol.

b) dim ond rhaglen sy'n cael ei rhyddhau am y tro cyntaf sydd ar gael ar IPS dynodedig sy’n gallu cyfrif tuag at y cwota oriau cynyrchiadau rhanbarthol[118], a

c) dim ond unwaith y gall gwerth rhaglen a ryddhawyd gyntaf ar yr IPS dynodedig gyfrif tuag at y cwota gwariant rhanbarthol.

A3.9 Fel sy’n cael ei drafod ym mharagraffau 4.28 a 5.13 rydym ni’n disgwyl i’r newidiadau hyn arwain at effeithiau cadarnhaol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o’i gymharu â’r sefyllfa ar hyn o bryd. Bydd y newidiadau hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig (ac i S4C lle bo hynny’n berthnasol) o ran sut gallant

[118] Ar wahân, roeddem hefyd wedi ystyried y mathau o raglenni gaiff gyfrif tuag at bob cwota (er enghraifft, newyddion, telesiopa ac ati) ar gyfer cyflawni cwotâu. Nid ydym wedi cynnig unrhyw newidiadau i’r mathau o raglenni sy’n cael eu hystyried ar gyfer unrhyw un o’r cwotâu. Y rheswm am hyn yw ein bod o’r farn bod y mathau presennol o raglenni sy’n cael cyfrif tuag at bob cwota yn dal yn briodol. Rydym ni hefyd wedi cynnig diweddaru ein canllawiau cysylltiedig ar y mathau o raglenni sy’n cael cyfrif tuag at y cwota cynyrchiadau gwreiddiol i adlewyrchu sut bydd cynnwys o IPS dynodedig yn cael cyfrif.

fodloni eu cwotâu ac, yn eu tro, mwy o hyblygrwydd o ran sut gallant arbrofi gyda'u strategaethau cynnwys wrth i'r farchnad esblygu (er enghraifft, drwy gyflwyno mwy o gynnwys ar-lein yn gyntaf neu gynnwys ar-lein yn unig). Rydym ni hefyd yn disgwyl i'r newidiadau hyn arwain at effeithiau cadarnhaol i gynulleidfaoedd, gan ei fod yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C i ymateb i newidiadau yn newisiadau cynulleidfaoedd drwy roi'r dewis iddynt ddefnyddio gwasanaethau ar-alw i gyflawni cwotâu. Nid ydym yn disgwyl i'r cynnig hwn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol ar gynhyrchwyr.

**Trosi cwotâu o rifau cymesur i rifau absoliwt (gwreiddiol a rhanbarthol)**

A3.10 Er mwyn trosi'r cwotâu cynhyrchu o niferoedd cymesur i absoliwt, rydym ni wedi cynnig cyfrifo'r cwotâu fel canran o gyfartaledd y gwariant/oriau llinol cymwys hanesyddol yn y pum mlynedd flaenorol. Rydym ni'n cynnig defnyddio'r canrannau presennol ar gyfer pob cwota o dan y system gyfrannol i gyfrifo niferoedd absoliwt fel bod y lefelau sylfaenol presennol yn cael eu cynnal yn fras mewn termau absoliwt.

A3.11 Fel y trafodir ym mharagraffau 4.41 a 5.25 o ran yr effaith ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C, rydym ni o'r farn na fydd y dull hwn yn gyffredinol yn arwain at fwy o faich rheoleiddio yn deillio o'r gofyniad cwota o'i gymharu â'r sefyllfa ar hyn o bryd. Fodd bynnag, oherwydd na fydd cwotâu absoliwt yn addasu i newidiadau mewn lefelau allbwn neu wariant sylfaenol yn yr un ffordd â chwotâu cyfrannol, rydym ni'n rhagweld y gallai'r baich rheoleiddio gynyddu neu leihau ychydig yn dibynnu ar lefelau cynhyrchu neu wariant mewn unrhyw flwyddyn benodol.

A3.12 Fel y trafodir ymhellach ym mharagraffau 4.41 a 5.25, nid ydym chwaith yn disgwyl i'r cynigion arwain at unrhyw effeithiau sylweddol ar gynulleidfaoedd na chynhyrchwyr.

A3.13 Fel y nodir ym mharagraff 5.26, rydym ni'n disgwyl y bydd ein dull o gynyddu'r cwota gwariant ar gynyrchiadau rhanbarthol 2% y flwyddyn (yn unol â tharged chwyddiant Banc Lloegr) yn cefnogi amcanion y cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol. Bydd yn brocsi rhesymol ar gyfer newidiadau mewn costau cynhyrchu dros amser ac felly, yn diogelu gwerth y cwota, o'i gymharu â chwota nominal. Bydd hefyd yn rhoi sicrwydd i randdeiliaid, gan gynnwys wrth ddatblygu eu strategaethau comisiynu, o'i gymharu â dull gweithredu sy'n seiliedig ar CPI, sydd o bosibl yn fwy cyfnewidiol. Rydym ni hefyd o'r farn ei fod yn symlach na dull sy'n seiliedig ar CPI gyda llai o faich gweinyddol (hynny yw, dim angen olrhain chwyddiant ac addasu ar y sail honno) ac y gallai fod yn haws ei ddeall ar draws y sector.

**Adrodd a Monitro (pob cwota)**

A3.14 Byddwn yn parhau â'r broses flynyddol barhaus o fonitro ac adrodd ar gydymffurfiaeth â chwotâu, ac rydym ni wedi nodi'n fanwl yr wybodaeth rydym ni'n rhagweld y byddwn yn gofyn amdani fel sail i'r broses hon. Fel y nodir yn Adran 7, o ystyried bod gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus nawr yr opsiwn i fodloni eu cwotâu gyda rhaglenni sydd ar gael ar IPS dynodedig, bydd angen gwybodaeth ychwanegol gan ddarlledwyr er mwyn gallu monitro, adrodd a chydymffurfio'n gywir â'r cwotâu sydd wedi'u diweddaru os ydynt yn dymuno dibynnu ar raglenni sydd wedi'u cynnwys yn eu IPS dynodedig.

A3.15 Fel y trafodwyd ym mharagraff 7.8, rydym ni'n ymwybodol, o'i gymharu â'r sefyllfa ar hyn o bryd, y gallai'r gofyniad am wybodaeth ychwanegol gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C mewn perthynas â chynnwys ar eu IPS dynodedig, roi rhywfaint o faich ychwanegol ar randdeiliaid, a byddwn yn ceisio lleihau hyn drwy ein dull

gweithredu. Nid ydym yn disgwyl i'r wybodaeth a'r gofynion ychwanegol hyn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol ar gynulleidfaoedd na chynhyrchwyr.

**Ailddarllediadau a rhaglenni catalog ar gyfer y cwota cynyrchiadau gwreiddiol**

A3.16 Rydym ni'n cynnig parhau i ganiatáu i ailddarllediadau llinol gyfrif tuag at y cwota, ond peidio â chaniatáu i raglenni catalog neu ddal i fyny ar IPS dynodedig gyfrif tuag at y cwota – sy'n golygu na fydd rhaglenni'n cyfrif os ydynt eisoes wedi cael eu darlledu ar deledu llinol ac wedi cael eu llwytho i fyny ar-lein.

A3.17 Nid ydym yn disgwyl i'r cynnig hwn arwain at unrhyw effeithiau ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C, cynulleidfaoedd na'r sector cynhyrchu o'i gymharu â'r sefyllfa ar hyn o bryd. Bydd y manteision i gynulleidfaoedd ac i ddarlledwyr o ganiatáu i ailddarllediadau llinol gyfrif yn cael eu cynnal yn unol â'r sefyllfa bresennol. Gan nad yw rhaglenni archif IPS dynodedig eisoes yn cyfrif tuag at y cwota, nid oes chwaith unrhyw enillion na cholledion i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C, cynulleidfaoedd na chynhyrchwyr yn deillio o'n penderfyniad i beidio â chaniatáu i raglenni archif gyfrif.

**Cwota gwylio oriau brig ar gyfer y cynnwys gwreiddiol**

A3.18 Rydym ni'n cynnig cadw'r cwota gwylio oriau brig ar gyfer cynnwys gwreiddiol ar wasanaethau llinol.

A3.19 Fel y trafodwyd ym mharagraff 4.34, nid ydym yn disgwyl i'r cynnig hwn arwain at unrhyw effeithiau ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C, cynulleidfaoedd na'r sector cynhyrchu o'i gymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol. Y rheswm am hyn yw y bydd y manteision a gaiff cynulleidfaoedd yn cael eu cynnal heb unrhyw gynnydd na gostyngiad, a bydd unrhyw faich rheoleiddio ar ddarlledwyr o'r cwota gwylio oriau brig yn cael ei gynnal. Hefyd, nid yw'r cynnig hwn yn arwain at unrhyw newid i gynhyrchwyr chwaith.

## Cwota cynyrchiadau annibynnol

A3.20 Mae'r cwota cynyrchiadau annibynnol hefyd yn cael ei ddiweddaru i ganiatáu i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddefnyddio cynnwys o'u IPS dynodedig i fodloni eu rhwymedigaeth cwota, ac i adlewyrchu nifer absoliwt sylfaenol o oriau cymwys yn hytrach na chyfran o oriau cymwys.

A3.21 Fel y nodir yn Adran 6, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am bennu'r nifer gofynnol o oriau ar gyfer y cwota cynyrchiadau annibynnol, ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi'r lefel ddiwygiedig ar gyfer y cwota hwn. Gan fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi bwrw ymlaen â'r diweddariadau i'r cwota hwn, ac nad oes angen i Ofcom wneud unrhyw benderfyniadau arwyddocaol a fyddai'n cael effaith sylweddol, nid oes angen i ni ddarparu asesiad o'r effeithiau.

# Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

A3.22 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â nodweddion

gwarchodedig o dan Ddeddf 2010[119]. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A3.23 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A3.24 Rydym ni hefyd wedi ystyried yn ofalus a fydd y cynigion yn y ddogfen hon yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys hil, oedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil a chrefydd neu gred yn y DU, a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da. Mae'r asesiad hwn yn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

A3.25 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym ni'n meddwl yn fwy eang na phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb, ac yn meddwl am yr effeithiau posib ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 yn ein canllawiau ar asesu effaith).

A3.26 Yn benodol, mae adran 3(4) o'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol dan yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) pa mor agored i niwed yw plant a phobl eraill y mae eu hamgylchiadau, yn ein barn ni, yn golygu bod angen gwarchodaeth arbennig arnynt;
b) anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel; a
c) gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

A3.27 Rydym ni'n edrych ar yr effaith y mae ein polisi'n debygol o'i chael ar bobl, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae hyn hefyd yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, waeth beth fo'u cefndir a'u hunaniaeth.

A3.28 Gan fod y cynigion yn bwriadu sicrhau bod y lefelau sylfaenol a nodir yng ngofynion y cwota ar hyn o bryd yn cael eu cynnal yn fras, rydym ni o'r farn y byddant yn cael effaith niwtral yn gyffredinol mewn perthynas â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig; maent yn annhebygol o effeithio ar grwpiau penodol o bobl mewn ffordd wahanol i'r boblogaeth gyffredinol. Rydym ni'n cynnig trosi cwotâu yn lefelau sy'n cyfateb i'r hyn rydym ni'n ei ddisgwyl yn fras i ddarlledwyr eu cynnal o dan y system gwotâu bresennol.

A3.29 Felly, bydd y lefelau'n cael eu cynnal yn fras a byddant yn sicrhau bod holl gynulleidfaoedd y DU yn parhau i gael eu gwasanaethu fel y maent ar hyn o bryd. Rydym ni'n credu y bydd ein cynnig i gadw gofynion oriau brig yn caniatáu parhad effaith gadarnhaol ar gynulleidfaoedd hŷn, a chynulleidfaoedd o grwpiau economaidd cymdeithasol is, neu'r rheini sydd â chysylltedd cyfyngedig sy'n methu defnyddio gwasanaethau band eang neu

[119] Y nodweddion gwarchodedig hyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

wasanaethau IP, gan fod y grwpiau hyn yn fwy tebygol o fod ag arferion gwylio sy'n dibynnu'n drwm ar deledu llinol.

A3.30 Rydym ni wedi ystyried a allai ein cynigion, a allai annog mwy o ddefnydd o wasanaethau BVoD, gael effaith negyddol ar y rheini sy'n dibynnu ar wasanaethau mynediad. Gan fod Rhan 4 Deddf y Cyfryngau yn gosod gofynion hygyrchedd ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw, nid ydym yn credu y bydd hyn yn digwydd.[120]

A3.31 Bydd cyhoeddi canllawiau ar ba gynnwys y gellir ac na ellir ei ystyried at ddibenion y cwota cynyrchiadau gwreiddiol am y tro cyntaf, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf y Cyfryngau, yn cynyddu tryloywder y rhwymedigaethau cwota. Credwn y gallai hyn gael effaith gadarnhaol drwy sicrhau tegwch o ran mynediad at wybodaeth. Wrth baratoi'r canllawiau hyn, rydym ni'n dilyn yr arferion gorau o ran hygyrchedd digidol.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

A3.32 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.[121] I roi hyn ar waith, rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.[122] Yn unol â hyn, rydym ni wedi ystyried effaith bosib ein hadolygiad ar (i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A3.33 Petai ein cynigion yn cael eu rhoi ar waith, nid ydym yn credu y byddent yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid ydym chwaith yn credu bod ffyrdd y gallai ein cynigion fod wedi cael eu llunio er mwyn cael, neu gynyddu, effaith gadarnhaol, neu er mwyn peidio â chael effeithiau niweidiol neu leihau unrhyw effeithiau niweidiol ar ddefnyddio'r Gymraeg.

[120] Ofcom, 2024. Mae'r Bil Cyfryngau: Trywydd Ofcom ar gyfer rheoleiddio, tudalen 14, yn darparu'r broses arfaethedig ar gyfer gweithredu'r gofynion hygyrchedd i sicrhau bod mwy o bobl ag anableddau yn gallu defnyddio a mwynhau'r gwasanaethau hyn, gan adlewyrchu'r argymhellion a wnaethom yn 2021.
[121] Adran 1(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
[122] Mae safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan.

# A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A4.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 10 Gorffennaf 2025.

A4.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/public-service-broadcasting/consultation-proposals-to-update-the-psb-quotas.

A4.3 Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A4.4 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at mediaact.part1a@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A4.5 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Tîm Polisi Cynnwys
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A4.6 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i lwytho yn syth ar YouTube (neu wefan lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A4.7 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A4.8 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A4.9 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A4.10 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A4.11 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r tîm drwy anfon neges e-bost i mediaact.part1a@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A4.12 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A4.13 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A4.14 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A4.15 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A4.16 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A4.17 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad oddeutu hydref 2025. Byddwn wedyn yn gweithredu'r penderfyniadau a nodir yn ein datganiad drwy wneud amrywiadau i drwyddedau Sianeli 3, 4 a 5, gan ddilyn y broses a nodir yn y trwyddedau hynny, a drwy gyhoeddi penderfyniadau a chyfarwyddiadau mewn perthynas ag S4C fel y bo'n briodol.

A4.18 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A4.19 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 6.

A4.20 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym ni'n rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A4.21 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A5. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

1. Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

2. Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
3. Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
4. Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosibl. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.
5. Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydym ni'n cynnal ein hymgyngoriadau.
6. Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

7. Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A6. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

> Dim ☐
> Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
> Ymateb cyfan ☐
> Sefydliad ☐
> Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

----------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)